

ECO'R WYDDFA

RHIF 73

MEDI 1982

Pris 20c

PENTREF NEWYDD YM MRO'R ECO!



Roedd golygydd newyddion pentrefi braidd yn bryderus pan welodd y llun yma o bentref newydd ym Mro'r Eco. Sut mae mynd i lawr yna i gasglu newyddion yw ei brif gonsyrn. Ond nid oes rhaid iddo boeni'n ormodol, efallai na fydd llawer yn digwydd yno – mae'n edrych yn "dipyn o dwll" i mi.

Ond mewn difri, rhan o set ar gyfer ffilm yw'r "pentref newydd" a chwmni ffilmiau Paramount, gyda help rhai dynion lleol sydd wrthi ar hyn o bryd yn ei adeiladu yng ngwaelod un o hen dyllau chwarel y Glyn ger Llanberis.

Mae prysurdeb na welwyd mo'i debyg o gwmpas yr hen chwarel, – crefftwyr o bob math, cynllunwyr,

peiriannau modern gan gynnwys lifft i gario dynion ac offer i waelod y twll ac yn ôl. Gobeithir cwblhau'r gwaith adeiladu a pharatoi ar gyfer y ffilmio rhywdro ym mis Hydref.

Deallwn mai "The Keep" yw enw'r ffilm ac mae'n argoeli mai ffilm arswyd fydd hi gan fod Vincent Price, y dyn ias a chyffro, yn un o'r prif actorion.

ORIEL ERYRI YN GALW'R BYD

O ddydd Gwener, Awst 27, hyd y dydd Llun canlynol, trowyd rhan o Oriel Eryri, Llanberis yn orsaf radio arbennig. Dyma gyfraniad unigryw yr Oriel i'r dathliadau sy'n digwydd yng nghanghennau'r Amgueddfa Genedlaethol ledled Cymru. Eleni mae'r Amgueddfa yn 75 oed.

Daeth y syniad i anfon gwybodaeth ar yr awyr am waith yr Oriel, ei chefnidir a'r ardal o'i chwmpas oddi wrth y cyfarwyddwr, y Dr. Llŷr Gruffydd sydd â diddordeb heintus yn y radio amatur. (Mae o ei hun yn "ham" ers 12 mlynedd). Drwyddo ef y cafodd yr Oriel drwydded "gorsaf arbennig" a'i offer ef, yn bennaf a ddefnyddiwyd. Cafodd gymorth tua 20 o bobl leol sy'n ymddiddori yn y maes i wneud y gwaith.

'Roedd yr orsaf yn gweithio drwy'r dyddiau a nodwyd a châl ymwelwyr i'r amgueddfa gyfle, drwy sylwi a gwrando, i ddeall yn well gwaith a

phwrpas yr Amgueddfa. Cysylltiwyd â gorsafoedd yn Seland Newydd, Japan, Pacistan, nifer yn Ewrop a nifer yn Unol Daleithiau America (rhai o'r gweithwyr radio yno o dras Gymreig). Mae'n debyg fod cannoedd yn rhagor wedi gwrando. Cafwyd nifer o negeseuon diddorol yn ôl.

Yn ystod y dyddiau nesaf bydd Dr Gruffydd yn trefnu i anfon cerdyn o'r amgueddfa i gydnabod y bobl ym phedwar ban y byd a ymatebodd i lais Amgueddfa Genedlaethol Cymru o Lanberis.

Mae llun o'r cerdyn ar dudalen 19.

COFIO HIROSHIMA AR LAN LLYN PADARN



Rhan o'r orymdaith lanternau tuag at y llyn.

Nos Wener, Awst 6, ymgasglodd dros 500 o bobl leol ac ymwelwyr o bob rhan o wledydd Prydain a thramor ar lan Llyn Padarn ger Llanberis i gynnal Gŵyl Goffáu Hiroshima. Trefnwyd y noson gan gangen Dyffryn Peris o'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwlciar.

'Roedd awyrgylch gŵyl bentrefol i ran gyntaf y noson – digon o 'gŵn poeth', hambyrgers a thatws wedi'u crasu ar stôf goed draddodiadol; – digon o gerddoriaeth roc 'fyw' i'w mwynhau neu i ddawnsio iddi ac hefyd cafwyd caneuon traddodiadol Cymraeg a chanu emynau.

Traddodwyd areithiau yn yr ail ran. Atgoffwyd y dorf am erchyllterau rhyfel niwlciar a dywedodd cadeirydd y noson, y Parchedig Marcus Robinson fod

mwy a mwy o bobl, nid yn unig yma yng Nghymru a gwledydd eraill Prydain, ond dros y byd i gyd yn lleisio'u barn yn gryf drwy fudiadau fel yr Y.D.N. yn erbyn y bom.

Mewn awyrgylch defodol, dwys gwthiwyd lanternau bychain ar y llyn fel arwydd deublyg o goffâd a phenderfyniad i atal unrhyw Hiroshima arall.

(Ein diolch i J Thomas ar ran Cangen Y.D.N. Dyffryn Peris am yr adroddiad gwreiddiol yn Saesneg.)



Y lanternau yn y cwch rhwyfo yn barod i'w cynnwau a'u gollwng ar y llyn.

RHIAN YN LLWYDDO ETO

Un o'r wynebau mwyaf cyson ar dudalennau'r Eco yw Rhian Owen, Stryd Siarlot, Llanberis, a llongyfarchion yr holl fro yr un mor wresog iddi'r tro hwn. Daeth Rhian yn fuddugol ar yr unawd i ferched rhwng 15 a 18 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe ddechrau Awst.

Gwobr arall yn yr Eisteddfod o ddiddordeb lleol oedd y Fedal am waith pensaernïol a ddyfarnwyd i bartneriaeth Bowen, Dann a Davies am gynllunio ystâd Hafan Elan, Llanrug.



ECO'R WYDDFA

**RHIF 73
MEDI**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)
TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)
DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)
FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)
TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)
TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)
GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdiorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 870550)
DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)
DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)
LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)
TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)
WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)
TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg
MEDI 30

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

**NOS FAWRTH
MEDI 21**

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

Mae 'Eco'r Wyddfa' Rhif 70
Mai 1982 newydd ddod i'm llaw.

Yn llun Athrawon Ysgol
Dolbadarn tua 1917 mae llun fy
chwaer, Miss Margaret C.
Roberts, Tai'r Cae, Bethesda pryd
hynny, yn ddiweddarach Mrs
Margaret C. Owen, Pen Rhiw
Bethesda. Bu farw Chwefror 24,
1981.

Yn y llun, mae fy chwaer yn
sefyll ym mhen y rhes ac yn gwisgo
blows wen. Y bedwaredd ar y dde
i'm chwaer yw ei ffrind Miss Betty
Thomas, o Fangor rwy'n credu.

Mae'n ddrwg gennyf nad allaf
ddweud am ragor ohonynt.

Dymuniadau gorau,
Myfanwy Roberts,
92, Carneddi Road,
Bethesda,
Gwynedd.

ARWYDDAIR I'R WYL CERDD DANT

Syr,

A gaf i ddwyn ychydig ofod yn
eich papur bro i dynnu sylw tuag
at gystadleuaeth cyfansoddi
arwyddair i'w gynnig i
Gymdeithas Cerdd Dant Cymru
fel arwyddair i'r Wyl Cerdd Dant.

Hyrwyddir a noddir y
gystadleuaeth gan Bwyllgor
Gŵyl Dyffryn Conwy a bydd
gwobr o £25 yn cael ei chyflwyno
i'r buddugwr yng Ngŵyl Cerdd
Dant Dyffryn Conwy a gynhelir
Tachwedd 20, 1982 yn Theatr yr
Arcadia, Llandudno. Pe byddai'r
Gymdeithas Cerdd Dant yn
gweld yn dda i ddefnyddio'r
arwyddair yma, yna byddai ar
gael i wyliau Cerdd Dant y
dyfodol.

Dyma gyfle arbennig i gefnogi
gŵyl diwylliant gwerin pwysigaf
Cymru.

Y mae amodau'r
gystadleuaeth yn hollol agored a
gellir gwneud cynigion mewn
unrhyw gyfrwng. Dylid anfon
cynigion i'r cyfeiriad isod
erbyn Medi 30ain, 1982.

Yn gywir,
Gwyn J. Williams
Ysg. Cyhoedduswydd
Godre'r Glyn
Ffordd Llanddoged
Llanrwst

RHAGLENNI I DDYSGWYR

Annwyl Olygydd,

Rydwi wedi bod yn dysgu
Cymraeg ers ychydig o
flynyddoedd. Rydw i'n edrych
ymlaen yn fawr iawn at gael
gwasanaeth teledu Cymraeg ar y
sianel newydd ac yn gobeithio y
bydd BBC, H.T.V. a S4C yn rhoi
rhaglenni yn arbennig i
ddysgwyr.

Rydwi'n credu ei bod hi'n
bwysig iawn i bobl fel fi sydd
wedi gwneud ymdrech dda i
ddyngu'r iaith allu mwynhau
rhaglenni Cymraeg. Achos bod y
Papurau Bro yn cyrraedd mwy o
Gymry Cymraeg nag unrhyw

gyfrwng arall, rydw i'n apelio
atynt i gefnogi fy nghais ar ran
dysgwyr Cymru i gyd drwy
ysgrifennu yn syth at BBC, HTV a
S4C i ofyn am raglenni i
ddysgwyr.

Wrth gwrs, fe ddylai'r
rhaglenni i ddysgwyr fod yn
ychwanegol at y pedair awr ar
hugain o raglenni Cymraeg sydd
yn cael eu trefnu.

Yn gywir iawn,
Angharad Rees
Rhiwbeina
Caerdydd
De Morgannwg

"YR HEN Ffordd GYMREIG O HEL DIOD"

7 Oxley Links Road,
Oxley,
Wolverhampton,
WV10 6TJ

Annwyl Olygydd,

Nid ydych yn crybwyll na chawn
ddyfynnu o waith rhywun arall, felly
dyma ddau englyn o waith un o fy hoff
feirdd, sef Dewi Hafhesp i'r
'Meddwyn':

Rhyw gorrach didrugaredd - wrth ei
fol,

Dan warth, fan hyn orwedd;
Mi wn mai dyma'i annedd -
Aroglaf fir drwy glai'i fedd.

Gwag leban botia'n ddi-baid - ei enw
gewch

Yn ei gochion lygaid;
Mab gwan, llwm, bwgan y llaid,
A bwli'r penebyliad.

Rwyf yn byw allan o Gymru ers y
flwyddyn 1939, ond mae gennyf gof
plentyn o dramp yn cysgu yn ein beudy
ni yn Llys y Gwynt, Cwm-y-glo,
Gwynedd. Cymro oedd o, ond ei fod yn
alcoholic ac yn crwydro'r wlad yn ei
garpiâu heb bres i brynu bwyd, roedd yn
gweithio ar ffarm yn rhywle pan oedd
yn sobor weithiau. Fe fyddai fy mam yn
cynnig iddo gysgu yn y tŷ ond wna'i o
ddim, felly fe fyddai mam yn cario
brecwast a dŵr iddo siafio i'r beudy, a
mi roeddyd yn ei glywed yn canu tonau
o'r tŷ, llais tenor ardderchog ganddo, a
mam yn gofyn iddo pam yr oedd yn
dyfetha ei fywyd. "Syrthio ganwaith i'r
un bai" oedd ei ateb. Beth yw'r

GWASANAETH NEWYDD

yng nghylch Eco'r Wyddfa

TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd
Glanmoelyn
Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674
am fwy o fanylion



feddyginiaeth i fod yn awr wn i ddim,
ond credaf fod gormod o yfed ar bob
rhaglen bron ar y teledu, mae'n rhaid
cael yr ymadrodd "What will you
have?" Fyddai byth yn gweld
chwaraeon ar y teledu yn Gymraeg wrth
gwrs yn byw yn Wolverhampton ond
mae'n bur debyg ein bod fel Cymry fel
mae gwaetha'r modd yn efelychu
pethau sala'r Sais.

Yr eiddoch,
yn gywir iawn,
(Mrs) Catherine E. Roberts

DOSBARTHADAU CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR AC ADUAN ALLANOL Y BRIFYSGOL

DEINIOLLEN

'Byd Natur, Mr Gareth Evans,
N.C.H. Dydd Mawrth, 7.00 p.m. yn
Ysgol Gwaun Gynfi. 10 cyfarfod o
Fedi 21.

LLANBERIS

'Dyn a'i Amgylchfyd' (ar y cyd efo
Oriol Eryri) Dr Llŷr D. Gruffydd,
M.I.Biol. Dydd Mawrth, 7.00 p.m. yn
OriEryri. 10 cyfarfod o Ionawr 11.

'Gwerthfawrogi Celfyddyd' - Mrs
Barbara Owen, A.T.D. Dydd Llun,
7.00 p.m. yn Ysgol Dolbadarn. 12
cyfarfod o Fedi 20.

'Dosbarth Dysgu Cymraeg' - Mrs
Sylvia Prys Jones, D.Phil. Dydd
Mawrth, 7.30 p.m. yn Ysgol
Dolbadarn. 20 cyfarfod o Fedi 28.

LLANRUG

'Gwareiddiad y Celtiaid' - Dr John Ll.
Williams. Dydd Llun, 7.00 p.m. yn yr
Ysgol Gynradd. 20 cyfarfod o Fedi 27.

WAUNFAWR

'Gwerthfawrogi Celfyddyd' - Mrs
Iorwen James. Dydd Gwener, 7.00
p.m. yn yr Ysgol Gynradd. 12
cyfarfod o Fedi 24.

Manylion pellach gan: Ifor Baines
(Cymdeithas Addysg y Gweithwyr).
Ffôn, Nantlle 328.

neu

Swyddfa'r Adran Allanol. Ffôn,
Bangor 51151 (494)

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion
hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:
£5 - D.M. Jones, Caernarfon er cof
am ei thad a'i mam, Mr a Mrs W.T.
Jones, Clwt-y-bont.

£3 - Rhodd gan blant Ysgol Sul,
Capel Preswylfa, Llanberis.

£2 - Mrs Dora Jones, Bryn
Hyfryd, Dinorwig; Constance a
Les Otter, Afallon, Dinorwig;
Mr J. Lewis, 16 Rhydfadog,
Deiniolen; Mrs Beti Roberts, 48
Rhydfadog, Deiniolen; Mr a Mrs
Leslie Owen, 70 Penbwllch,
Mynydd Llandegai; Mr a Mrs
Eurwyn Thomas, Stryd y
Ffynnon.

£1 - Mrs E. Pritchard, 1 Ffordd
Deiniol, Deiniolen; Miss L.
Rowlands, 12 Pentre Helen,
Deiniolen; Mr E. Morris, 91
Pentre Helen, Deiniolen.

80c - Di-enw Clwt-y-bont.
50c - Di-enw, Penisarwaun.
£2.00 - Un o Lanbêr gynt.

AR WERTH

Stereo - £10.

Sylindr Copr - £15.

Caernarfon 4567.

COFFÁU LLYWELYN



Rhan o'r gynulleidfa o dros 300 o bobl a fu'n gorymdeithio i Gastell Dolbadarn mewn rali a drefnwyd i goffáu Llywelyn ein Llyw olaf. Cafwyd areithiau gan Gwynfor Evans, Dafydd Ellis Thomas, A.S. a Dafydd Wigley, A.S.



NANT PERIS

PROFEDIGAETH – Bore Llun, Mehefin 28 brawychwyd yr ardal gan farw sydyn Margaret Humphreys, 3 Glanrafon. Yr oedd yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Llewelyn Humphreys ac wedi treulio ei hoes yn y Nant. Bu ei harwyl yn amlosgfa Bangor. Cydymdeimlir â'i brawd, Mr O. Humphreys, Llanrug a'i chwaer Mrs M. Jones, Aberystwyth a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Gorffennaf 8 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor wedi cystudd blin bu farw Mrs Hedwig Thomas, priod y diweddar Elfed Thomas, 9 Glanrafon. 'Roedd Mrs Thomas yn enedigol o Awstria a daeth yma i fyw ar ei phriodas ar ôl y rhyfel. Gedy ddau fab, Robert a Meirion a merch, Theresa ac wyres, Llinos. Cydymdeimlir â hwy yn eu colled a'u hiraeth.

Bu farw un arall o drigolion y Nant Gorffennaf 7, sef Miss Gwyneth Williams, Ty'n Twll gynt. Yr oedd wedi ymgartrefu ym Mhlas Maesincla ers blyneddau lawer. Yr oedd yn aelod selog o Gapel Seilo, Caernarfon ac yno y bu gwasanaethu teulwng iawn iddi dan arweiniad ei gweinidog, y Parch Harri Parri. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir â'r perthnasau i gyd.

GWAELEDD – Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs Nancy Jones, 2 Glanrafon sydd yn ysbyty Môn ac Arfon wedi triniaeth lawfeddygol. Gobeithir ei gweld gartref yn fuan.

CARNIFAL – Cafwyd y carnifal arferol nos Wener, Gorffennaf 23 a bu'n llwyddiant mawr. Diolchir i bawb a fu'n gweithio i'w wneud yn

llwyddiant. Mrs Prydwen Pritchard, Llys Awel a Mrs Price, y Llythyrdy oedd yn gyfrifol am y trefniadau. Bydd rhan o'r elw yn mynd i roi trip i'r plant, bwriedir mynd i Southport Medi 4 – y bws yn gadael am 8 y bore. Canlyniadau'r carnifal:

Gwisg ffansi: Dan 5 oed: 1. Jessica Jones, 2. Sara Davies, 3. Meinir Roberts. **o 5 i 8:** 1. Eryl a Llinos, 2. Louise Ellis a Colin Ellis, 3. Elin Angharad a Steven Baylis. **o 8 i 11:** 1. David Ellis a Philip Roberts, 2. Emma Griffiths a Dylan Jones, 3. Sian Elen ac Angharad Elis. **o 11 i 14:** 1. Sharon, 2. Helen Mai, 3. Julian Vaughan. **Dros 21:** Owen Rees Jones, Gwenlli Parry, Rhian Pritchard, Brenda Roberts, Nerys Roberts. **Parau:** 1. Maud, Anna, Dilys Roberts, Dilys Philips, 2. Carys Non ac Einir, 3. Alan Jones

ac Arfon Philips, Ann Jones a Keith Bingham. **Addurno Pram:** 1. Caren, 2. Ann Jones. **Addurno Beic:** 1. Peter Hughes, 2. Emma Griffiths, 3. Sian a Gwen. **Rhedeg Ras dan 5:** 1. Dafydd Aled Jones, 2. Gwennan Elis, 3. Mannon. **5 i 8 oed (genethod):** 1. Linda Pryddarch, 2. Carys Wyn Owen, 3. Mannon Elis. **5 i 8 (bechgyn):** 1. Steven Baylis, 2. Kevin Sage, 3. Arwyn Hughes, Robin Owen. **8 i 11:** 1. Diane Jones, 2. Nia Gwyn a Sian Elen, 3. Angharad Elis, 4. Julie Baylis. **8 i 11 (bechgyn):** 1. Paul Roberts, 2. Iestyn Jones, 3. Andrew Griffiths. **11 i 14 (genethod):** 1. Helen Mai, 2. Alison Edwards. **11 i 14:** 1. Michael Roberts, 2. David Owen, Wayne Torr, Dylan Roberts, 3. Ian Torr a Geraint Owen. **14 i 21:** 1. David John a lolo, 2. Michael, 3. Aaron Pratt. **Rhedeg Hyd y Cae:** 1. Iwan Wyn, 2. David

John, 3. Jason ac Andrew. **Ras tair coes (genethod):** 1. Helen Mai ac Alison, 2. Sian Elen a Diane, 3. Linda Pryddarch a Julie Baylis. **Ras tair coes (bechgyn):** 1. Paul a Jason, 2. Andrew Griffiths a Colin Owen, 3. Iwan Wyn a Bryn.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs J.W. Elis ddiolch i berthnasau a ffrindiau am y dymuniadau da, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ruddem.

MARW – Awst 26 yn Ysbyty Môn ac Arfon ar ôl gwaeledd hir bu farw Mr Dave Thomas, Gwyndy, gynt o Westy'r Faenol. Gedy weddw, tri mab a dwy ferch a dwy wyres. Cydymdeimlir â hwy yn eu profedigaeth.

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgym sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

CASTELL CIDWM

Darn o graig anferth yw yn nhalcen y Mynydd Mawr ac yn wynebu Llyn Cwellyn. Dywedir fod ogof yn y graig, ac y mae hen chwedl yn gysylltiedig â'r lle.

Ysgrifennodd Edward Llwyd yr hanes yn 1693 a chyhoeddwyd ef yn y 'Cambrian Journal' am 1859. Cafwyd yr un hanes gan Glasynys yn 'Cymru Fu' am 1862.

Dywedir fod Cidwm wedi lladd mab Elan Lueddog drwy ei saethu o'i ogof, a bod y mab hwnnw wedi ei gladdu rywle ar lannau Llyn Cwellyn. Disgrifir Cidwm fel 'cawr' neu 'anghenfil cynddyrus'. Dywed traddodiad mai gwraig Macsen Wledig oedd Elan, bod iddi dri o feibion, ac mai hi roes yr enw Sarn Helen i'r ffyrdd neu lwybrau sydd mewn rhannau o Wynedd.

Fel hyn y mae Edward Llwyd yn sgwennu: "Elan a ddaeth o Gonwy i Nant tal y llyn lle lladdodd Cidwm gawr o'i gastell â saeth ei mab hi; mae tŷ lle y claddwyd ef ag a elwir tŷ yn medd y Mab, ac Ysgubor Ifan (wrth hyn mae rhai yn meddwl mai Ifan oedd gelwid ef)."

Mae Glasynys yn adrodd nad oes hanes am na 'thŷ na thwlc yn agos i'r fan' ond mai 'Gweirglodd bedd y Mab' oedd yr enw ar y lle. Mae hefyd yn nodi mai yn ymyl fferm Caeau Gwynion yr oedd, ac meddai "gŵyr pobl y nant yn weddol dda am fedd y mab." Dywed Glasynys hefyd fod Cistfaen wedi ei darganfod gerllaw pen isaf Llyn Cwellyn "ers cwrs o flynyddoedd yn ôl" (yr oedd yn sgwennu yn 1862). Agorwyd y gist "a chaead ynddi olog a thipyn o esgryn braenllyd."

Ein problem ni bellach yw darganfod ble'n hollol y mae "Tŷ yn medd y Mab" neu "Gweirglodd bedd y mab" ac "Ysgubor Ifan". Methais â dod ar draw yr enwau yn Arolwg y Degwm ym 1839, er yn anffodus, enwau'r ffermydd yn unig a roir am blwy Betws Garmon. Ond wrth gwrs, nid oes sicrwydd mai ym Metws Garmon y maent.

Deuthum hefyd ar draws y ddau englyn canlynol i Gastell Cidwm. Nis gwn pwy yw'r awdur neu'r awduron.

"Castell Cidwm, trwm y tro – a
fwriwyd

O'i fawredd i angho'
Clogwyni ceulawg yno
Wela'i fyth i'w wyllo fo.

"Lle llid fu Castell Cidwm, – y clegir
A'r clogwyn yn gwlwm:
Anferth dwr ger cwr y cwm
Aruthrol fan i orthrwm.

Gyda llaw, yr hen enw ar Lyn Cwellyn oedd Tarddyni, Tarddenni neu Tarddennin. Fe'i henwyd ar ôl afon o'r un enw sy'n llifo o Gwm Clogwyn yng nghesail yr Wyddfa, ac sy'n ymuno ag afon Gwyrfaei rhyw chwarter milltir uwchlaw'r llyn. Yn y mapiau Ordnans diweddaraf, enwir yr afon hon yn Treweunydd.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

Bistro
**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**
Ffôn: LLANBERIS 871 278
(Danny a Nerys Roberts)
Pryd gorau'r fro

LLANBERIS

MARWOLAETHAU – **Thomas John Owen** – Gorffennaf 8 yn ysbyty Môn ac Arfon Bangor bu farw Thomas John Owen, 3 Teras Efrog, yn 88 oed. Roedd yn un o hen drigolion yr ardal ac yn gymeriad hynod o ddoniol yn ei ddydd. Treuliodd ei oes yn y chwarel ac roedd yn fawr ei barch gan y chwarelwyr. Claddwyd ef ym mynwent Nant Peris gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'i chwariydd, Mrs Nel Jones, Miss H. Jones, Mrs Richard Owen a'r gweddill o'r teulu yn eu profedigaeth.

Gwilym Jones – Yn yr ysbyty ym Mangor Gorffennaf 26 bu farw Gwilym Jones, Pen y Graig yn 74 oed. Er gadael y chwarel rai blynyddoedd yn ôl bu ei iechyd yn fregus iawn. Bachgen o bentref bach Brynrefail ydoedd, ond ar ei briodas i eneth o'r ardal daeth i fyw i Lanberis. Cymeriad tawel a di-stwr ydoedd – wedi gofalu am flynyddoedd lawer am ei briod a fu'n wael ei hiechyd ac yn gofyn gofal cyson. Ymddiddori â thrwsio clociau fyddai ei hoff hobi – ac un difyr iawn ydoedd i wrando arno yn adrodd rhyw stori ddoniol neu ddigwyddiad o'r chwarel. Cydymdeimlir â'i unig ferch, Margaret, a'i theulu, a'i chwariydd a'i frodyr a'r teulu yn eu profedigaeth. Claddwyd ef ym mynwent Nant Peris gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu.

Hugh Watcyn Jones – Gorffennaf 9 bu farw Hugh Watcyn Jones, Bryn Awel, 18 Bryn Eithnog, Bangor yn 72 mlwydd oed. Er ei fod wedi gadael yr ardal ers blynyddoedd, fel "un o'n hogia ni" y byddai pawb yn ei adnabod. Mab i'r diweddar Alaw Mai ydoedd, un o'rganyddion gorau ei oes, ac roedd Watcyn wedi ei drwytho gyda cherddoriaeth er yn ifanc iawn, gan ddilyn ei dad i eglwys Sant Padarn lle'r oedd Alaw Mai yn organydd swyddogol. Pan briododd Watcyn a symud i Fangor bu'n organydd a chôr feistr yn Eglwys Sant James am 18 mlynedd, a chyn hynny yn organydd cynorthwyol yn yr Eglwys Gadeiriol am 8 mlynedd. Bu yn y lluoedd arfog, ac wedi gorffen y rhyfel aeth yn athro ysgol i Lanrug a Llanddeiniolen, a gorffennodd ei yrfa addysgol yn brifathro ysgol Tan-y-coed, Penisarwaun.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant James gyda'r Parchn. E.T. Roberts, y Ficer a'r Deon J. Ivor Rees yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'i weddw, y plant a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Charles Wyn Jones – Yn frawychus o sydyn yn ei gartref Maes Padarn, bu farw Charles Wyn Jones, yn 59 oed, Gorffennaf 17. Roedd wedi ei eni a'i fagu yn yr ardal, ac oddigerth y blynyddoedd y bu'n gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog, dyma lle y trigodd. Ni fu yn holliaeth wedi dychwelyd o'r fyddin, a bu'n derbyn triniaeth mewn ysbyty am fisoedd lawer.

Claddwyd ym mynwent Nant Peris ar yr 21ain gyda'r Parchn Marcus Robinson, J.O. Roberts a Ronald W. Roberts yn gwasanaethu. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Glenys, ei briod, Gareth a Noel, ei feibion, John ei frawd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl.

YN YR YSBYTY – Yn dal yn yr ysbytai mae rhai o'r pentrefwyr o hyd – ond hwyrach erbyn y byddwch yn darllen y rhifyn hwn y byddant gartref gyda'u teuluoedd. Dymunir adferiad llwyr yn fuan iawn iddynt i gyd – i Mr Percy Jones, Plas Coch sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth lawfeddygol, Mrs Katie Williams, Derwen Deg yn gwella yn araf yn ysbyty Minffordd.

Yng Ngallt y Sil Caernarfon erys Mrs M. Jones, Maes Padarn a Mrs J. Jones, 17 Stryd Goodman.

APÊL AM GROESFFORDD DDIOGEL – Mae amryw o'r pensïynwyr yn holi beth sydd wedi digwydd i'r apêl a wnaethpwyd rai wythnosau'n ôl i geisio cael Cyngor Cymuned i sefydlu 'Croesffordd Ddiogel' rhywle o amgylch y Llythyrdy. Mae'r apêl a'r cannoedd enwau ar y ddeiseb wedi eu trosglwyddo i'r pwyllgor perthnasol gan y Cyngorydd Francis Jones, sydd yn gefnogol iawn i'r apêl ac yn gwybod y gwir angen am ddiogelwch i'r henoed yn ystod wythnosau prysur yr haf.

CAI YN DIOLCH – Dymuna Cai, Gwas Llys Brenhines Ffion ddiolch i bawb am eu hanrhegion iddo ar yr achlysur yma yn ystod Carnifal Llanberis 1982.

O GANADA – Mae Ceridwen Glyn (gynt Roberts) ei phriod a'i dwy ferch fach wedi cyrraedd gartref o Ganada. Bwriadant aros am rai wythnosau o wyliau. Croeso gartref i chi Ceridwen.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs G. Hobby, Gernant, Cwm-y-glo ddiolch i'w ffrindiau a'u cymdogion am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn y ddamwain a gafodd Graham yn ddiweddar.



CROESO GARTREF O'R FALKLANDS – Nos Lun, Awst 23 estynnwyd croeso gartref i Nigel, mab 18 oed, Mr a Mrs Sarkey, 44 Stryd Fawr. Cyn dod i Lanberis ychydig dros flwyddyn yn ôl roedd y teulu'n byw yng Nghlynnog, ac aeth Nigel i Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes. Ar ddiwedd Gorffennaf 1980 gadawodd yr ysgol a mynd i Gravesend i Goleg Arbennig gyda'r Llynges. Yna, gyda'r helynt yn y Falklands anfonwyd ef ar y llong 'Engadine' a bu'n gweithio arni hyd iddi dychwelyd Awst 23. Rhoddwyd croeso mawr i Nigel gan yr ardalwyr a'r cymdogion o gwmpas. Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai pryderus iawn i'w fam a'i dad a'i unig chwaer. Croeso gartref Nigel.

LEFEL A – Llongyfarchiadau i blant yr ardal a fu'n llwyddiannus yn yr Arholiadau Lefel A eleni.

PERSONOL – Da iawn yw deall fod Miss Louie Pritchard, y Garej Ganol yn gwella ar ôl y ddamwain a gafodd rai wythnosau'n ôl. Ar hyn o bryd mae hi'n aros gyda'i chwaer yn Llys Eryri.

PRIODAS ARIAN – Pob hapusrwydd i mam a dad (Maureen ac Eddie Lennon) ar eich Priodas Arian.

DIOLCH – Dymuna Maureen ac Eddie, Plas Tirion ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur eu Priodas Arian.

YSGOL DOLBADARN – Llongyfarchiadau i Lisa Jane Rudkin, Gerafon ar lwyddo mewn arholiad canu'r ffliwt, Gradd 4, gyda rhagoriaeth. Hyfforddwyd hi gan Mrs Rona Morgan-Edwards.

DIGWYDDIADAU – Er y rhifyn diwethaf o'r 'Eco' mae llawer o bethau wedi digwydd yn yr ardal, pethau cofiadwy, pethau difyr a phethau trist. Aeth amryw o'r

trigolion i'r ysbytai ond mae'r mwyafrif wedi dychwelyd gartref i orffen gwella. Daeth profedigaeth i gartrefi rhai o'n hanwyliaid, a mawr fu cydymdeimlad yr holl ardal. Bu tristwch mawr yn prynhawn pan fu fodd bachgen bach o Fethel yn Afon Hwch – chwarae yn troi'n chwerw – ynghanol wythnos o hwyl a sbri. Da na wyddom beth sydd gan yfory i'w gynnig i ni, ynte.

Bu gweithgarwch mawr ymysg y bobl ifanc – pawb yn paratoi ar gyfer y carnifal – wythnos braf a rhywbeth wedi ei drefnu ar gyfer pawb. Ar nos Sul yng Nghapel Coch cafwyd noson fythgofiadwy dan lywyddiaeth Arwel Jones, Llanrug pryd y cymerwyd rhan gan Gôr y Traeth, Hogiau Bryngwran, a Pharti Canu Plant Ysgol Dolbadarn dan arweiniad Mrs Pierce. Arweiniwyd y canu gan Mr Rowland Wyn Jones, gyda Mrs Pritchard yn cyfeilio a Mr Hugh Peris Pritchard wrth yr organ.

Yna, yn ystod yr wythnos bu noson o Chwist, Noson Gystadlu gyda'r dartiau, snwcer, dawnsio gwerin ar lawnt Gwesty'r Grosvenor, Mabolgampau, Gemau Giamocs, rasmus raffiau a nofio ar y llyn, a ddiweddu'r cyfan gyda diwrnod hafaidd i goroni Ffion, Brenhines y Carnifal. Daeth cannoedd o bobl o bob rhan o'r wlad i weld y rhedwyr yn cychwyn Ras yr Wyddfa. Bu'r cyfan yn llwyddiant mawr, a mawr yw ein dyled i'r dynion fu'n gweithio yn ymroddgar am wythnosau i sicrhau llwyddiant yr wythnos.



Roedd un peth newydd sbon yn y Carnifal eleni. Y Frenhines Ffion a'i gweinyddesau, Bethan ac Einir a gwas y llys, Cai, yn cael eu cludo drwy'r pentref mewn 'Fairy Coach' – un go iawn hefyd o liw arian ac wedi ei haddurno yn dlws oddi mewn â blodau lliwgar. I Eric Bayliss mae'r diolch am y cerbyd. Bu am wythnosau drwy'r gaeaf yn trosi hen garafan a'i gwneud yn gerbyd addas – ac un parhaol hefyd ar gyfer y carnifal. Diolch i chi Eric, mae'r ardal yn gwerthfawrogi gwasanaeth fel hyn.

Dymuna'r Frenhines Ffion ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion hardd a dderbyniodd ar achlysur ei chorioli yn Frenhines y Carnifal 1982. Mae'r Frenhines Ffion wedi ymweld â charnifal Nant Peris, Prestatyn, Bangor a Phen-y-groes.

DIOLCHIADAU – Hoffai Mr a Mrs Eurwyn Thomas ac Einir, 9 Stryd y Ffynnon, Llanberis ddiolch i bawb am yr anrhegion a dderbyniodd Einir ar yr achlysur o fod yn weinyddes i'r Frenhines Ffion. Hefyd i Bwyllgor y Carnifal, yn enwedig y merched am drefnu popeth a'i wneud yn ddiwrnod bythgofiadwy.

I'R FYDDIN – Dymuniadau gorau i Arfon, mab Mr a Mrs Emyr Hughes, 92 Maes Padarn sydd wedi ymuno â'r fyddin ac yn perthyn i Gatrawd y Tywysog Siarl yng Nghruc Hywel.

ANRHYDEDD – Urddwyd Mr Eurwyn T. Jones, Tawel Lan yn Gadeirydd Cyngor Cymuned lechyd Dwyfor ac Arfon. Mae'r pwyllgor yma yn gysylltiad rhwng y cyhoedd a'r Pwyllgor lechyd, Gwynedd. Bu'n aelod o'r pwyllgor yma ers tair blynedd.



Prifathro Ysgol Cwm-y-glo yw Mr Eurwyn Jones, ac yn ddiagon ac ysgrifennydd yn eglwys Nant Padarn. Dymunir iddo bob llwyddiant yn ei swydd newydd.

Y GENEDLAETHOL – Ardderchog iawn Rhian – cael y wobwr gyntaf eto yn y gystadleuaeth unawd i ferched dan 18 oed yn y Genedlaethol. Rydych i'ch canmol yn arw iawn – nid yn unig am eich cyfraniad i'r canu a'r ymarferiadau cystadleuol yn yr ysgol (heb sôn am eich gwaith caled tuag at yr arholiadau Lefel A) ond gyda'r Urdd – gyda'r parti canu fu'n llwyddiannus yn lwerddon rai misoedd yn ôl. Rydych yn barod eich cymwynas i bob achos da bob amser. Disgwylir clywed pethau gwych amdanoch yn y dyfodol – pob lwc i chi Rhian.

RHODD – Plant Preswylfa – Anfonwyd rhodd o £3 gan blant bach Ysgol Sul Preswylfa i Gronfa'r Eco, ganddiolch am y Su cofiadwyhwnnw pryd y cawsant gymryd y rhan flaenaf yn y gwasanaeth olaf yng nghapel eu mebyd.

PRIODAS RUDDER – Dymuniadau da i Mr a Mrs William Jones, Storfa Padarn ar ddathlu eu priodas ruddem yn ystod y mis diwethaf.

CROESO GARTREF – Ar ôl misoedd lawer o gartrefu yng nghartref Pengwaith mae Mrs Thomas Evans, Caledfryn wedi cael dychwelyd i'w chartref. Da iawn – a chroeso cynnes iawn i chi yn ôl i'ch cynefin Mrs Evans – bydd llawer o'ch cymdogion a chyfeillion lu yn sicr o alw am sgwrs rŵan ac yn y man.

Hefyd mae Mrs Buddug Hughes, Victoria Terrace wedi dychwelyd gartref ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Môn ac Arfon. Croeso gartref i chwithau hefyd Buddug.

Yr un creoso i Mr Ritchie Roberts, Woodville, Stryd Capel Coch – yntau gartref o'r ysbyty, dan ofalaeth dirion iawn ei ferch, Helen. Yn ystod yr wythnosau diwethaf dychwelodd Bob Lloyd, Dol Elidir, Mrs Menna Jones, Stryd y Ffynnon a Mrs Margaret Price, Stryd Siarlot gartref o'r ysbyty – dymunir iddynt adferiad llwyr.

GRADDIO – Llongyfarchiadau i Bryn, 60 Dol Elidir ar ennill gradd BA gydag anrhydedd mewn Cymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Bangor.

Hefyd, Shirley, 46 Maes Padarn, hithau wedi derbyn gradd B.A. mewn Daeryddiaeth a Hanes ym Mhrifysgol Lerpwl.

RHODD – Cyflwynodd teulu'r diweddar Gruffudd Roberts, Gwesty'r Dolbadarn y swm anrhydeddus o £94.50 i Gronfa Ymchwil y Galon er cof am eu tad.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs G. Lloyd Hughes, 17 Dol Elidir sydd wedi colli ei mam ym Mlaenau Ffestiniog, hefyd Mrs Dorothy Williams, Stryd Fawr hithau wedi colli ei thad yn Sir Fôn.

YR YSGOL FEITHRIN – Cynhaliwyd parti diwedd tymor i blant yr Ysgol Feithrin a'r grŵp Mam a'i Phlentyn amser cinio ddydd Mercher, Gorffennaf 7.

Bydd yr Ysgol yn ailagor ym mis Medi.

Mae ymddiheuriad i Mrs Janet Pepper, y trysorydd gan mai hi a

LLANBERIS (Parhad)

drefnodd y trip i Butlins ar ran yr Ysgol Feithrin a Mrs L. Ellis ar ran grŵp Mam a'i Phlentyn.

Bydd yr Ysgol Feithrin yn dechrau Medi 1 am 9.15 o'r gloch yn y Ganolfan i blant o ddwy a hanner mlwydd oed.

TORRI RECORD - Ardderchog iawn Paul, yn dod yn gyntaf yn adran y plant yn Ras yr Wyddfa a thorri y record ar hynny. Mab ieuengaf (10 oed) Mr a Mrs John Prydderch, Bronallt, Teras Olgra yw Paul ac mae ei fryd ar redeg. Fe ddywed Kenneth Jones, trefnydd Ras yr Wyddfa mai Paul yw'r rhedwr mwyaf addawol sydd ganddo yn y dosbarth ifanca ac y dylid rhoi pob cyfle iddo gael dilyn y goreuon.

Nid Ras yr Wyddfa yw'r unig ras i Paul redeg ynddi. Ar ddiwedd y flwyddyn rheddodd yn y Ras draws gwlad, Glannau Dyfrdwy, a daeth yn drydydd. Mewn ras gyffelyb ym Mae Colwyn daeth yn drydydd. Yn y Penmaenmawr Fell Race daeth yn gyntaf a hefyd yn gyntaf yn Ras y Moelwyn a Ras Eryri Harriers, Beddgelert.

Mae Kevin ei frawd sydd yn 16 oed yn redwr da hefyd. Daeth yn drydydd yn Ffestiniog ac yn Rallt y Glyn. Daeth Michael Roberts, Stryd y Ffynnon yn ail yn Ffestiniog, ym mis Mehefin ac eto yn Ras mis Awst. Rheddodd Linda, chwaer fach Paul yn Ras Beddgelert a daeth yn gyntaf, ac yn Ras Penygroes, Sadwrn Awst 14 daeth eto yn gyntaf.

Yn Ras Penygroes daeth Paul yn gyntaf, Cai Williams, yn bumed a Marc Williams yn nawfed. Llongyfarchiadau i'r cyfan.

Lluniau'r ar y dudalen ôl.

DYWEDDIO - Llongyfarchiadau i Ronnie, mab Mr a Mrs T.J. Roberts, 83 Maes Padarn ar ei ddyweddïad â Sioned, merch Mr a Mrs Williams, Siop y Gloch, Penygroes.

LLYN PADARN - O gofio'r gweithgareddau a'r pleserau a fu ar Llyn Padarn, dyma'r flwyddyn y tybiaf fod yna fwy o amrywiaeth nag un amser. Yn y gorffennol Cystadleuaeth Bysgota fyddai'r unig drefniant i gyrchu pobl o'r tu allan i'r ardal i ddod i gymryd diddordeb yn y llyn. Diolch i bwyllgor y Carnifal ac i Mr Bryn Parry ac eraill am gynhyrfu'r dŵr a dod â rhywbeth newydd i lannau'r hen llyn. Cawsom hwyl wrth wylio'r Ras Rafftiau (diolch i fechgyn y Frigad Ddân). Yna y Ras Byrddau Hwyllo, lle y gwelsom tua 20 o'r hwyllo bach lliwgar yma i fyny ac i lawr y dŵr, y cyfan yn rhoddi rhyw fywiogrwydd i'r dŵr, a neb yn poeni llawer am rasio.

Yna daeth y ras nofio i blant ac oedolion. Yn wir roedd y ras yma yn atyniad mawr gyda 80 yn cystadlu nofio'r llyn a chychod y gwylwyr, y ceufadau bach coch, glas a gwyrdd yn brysur blith drafflith yn dilyn y nofwyr, a phawb yn padlo yn llawn brwdfrydedd, ac i feddwl mai merch enillodd y ras nofio o Lanberis i Benllyn ac yn ôl.

Diolch i chwi fechgyn gweithgar Llanberis am eich brwdfrydedd a'ch ffyddlondeb i'r pethau lleol. Fe wn i am un person pe bai ef fyw heddiw a fyddai wrth ei fodd yn gweld pobl yn gwerthfawrogi Llyn Padarn (ac nid am ei bysgod yn unig).

Daliwch ati - mae'r cyfan yn werth yr ymdrech.

LLWYDDIANT - Llongyfarchiadau i Gwilym Roberts, 15 Maes Padarn ar ennill Diploma gyda chlod uchel yng Ngholeg Caerdydd ar Therapi Gyrfaol. Mae wedi cael ei wneud yn aelod o staff ysbyty Whitchurch, Caerdydd.

CADLANCIAU SANT IOAN - Ar ôl blynyddoedd o weithgarwch gyda'r oedolion a'r plant. Mae Mr Huw Curig Owen, 12 Dol Eilian wedi ei urddo yn

'Brother Officer of the Priory for Wales of St. John of Jerusalem', gan yr Arglwydd Aberdâr yng Nghaerdydd.

Drwy'r blynyddoedd mae Nyrs Glenys Parry, Stryd Ceunant wedi llafurio â'r genethod ac wedi bod yn llwyddiannus iawn hefyd gyda'r arholiadau. Yn Ffestri Capel Coch rai wythnosau'n ôl cyflwynodd Maer Arfon, y Cynghorydd Francis Jones, dystysgrifau i'r plant canlynol ar eu llwyddiant mewn gwahanol bynciau: **Cymorth Cyntaf:** Liza Jane Rudkin, Cheryl Edwards, Nia Williams, Ceri Lynne Parry, Jane Parry. **Dosbarth Iau:** Marieke Latham, Hannah Rudkin, Eirian Wyn Roberts, Cathy Jones, Liza Jones, Rhian Lloyd, Sian Lloyd. **Cymorth Cartref:** Gillian V. Jones, Nia Williams, Belinda Griffiths, Cheryl Edwards, Emma Roberts, Sali Ellis, Ceri Lynne Parry, Alison M. Jones, Christine Ellis, Lisa Rudkin, Ann Evans, Jane Parry, Catrin Lloyd Roberts, Alison Edwards. **Crefftau:** Alison Edwards, Jane Parry, Gillian V. Jones, Catrin Lloyd Roberts. **Mabolgampau:** Catrin Lloyd Roberts, Alison M. Jones.

Y Cadlanciau Hynaf: Karl Roberts, Alan Ellis, Nigel Ellis, Hugh Harries, Dewi Harries, Dylan Roberts, Terry Saynor, Colin Saynor, Andrew Griffith, David Ian Edwards, Gareth Wyn Owen, Derfel Owen Williams, Gareth Guck, David E. Griffiths, Mathew Griffiths. **Y Cadlanciau Ifanc:** Neil Owen, Geraint Wyn Thomas, Darrel Griffith, Trystan Thomas, Dylan Parry, Mari Williams, Euron Thomas, Cai Williams, Llifon Foulkes, Eifion Griffith.

CYDNABOD GWROLDEB - Yn ystod y tân dychrynlyd a fu yn 35 Stryd Fawr fis Ebrill bu dau o aelodau'r frigid dân yn eithriadol o weithgar a gwrol yn ymwthio drwy'r fflamau i geisio achub bywyd. Am eu gwroldeb cyflwynwyd dystysgrif i Dafydd Price ac Eric Bayliss gan y Prif Swyddog o'r Frigid Dân, Mr T. Eric Edwards. Roeddynt yn peryglu eu bywydau eu hunain er ceisio achub bywyd eraill ac yn dangos y siampl orau ac uchaf i'r gwasanaeth pwysig hwn.



Dafydd Price gyda Mr T. Eric Edwards, Prif Swyddog y Frigid Dân.



Eric Bayliss gyda Mr T. Eric Edwards.

PRIODASAU - Gorffennaf 13 yn Eglwys Sant Brynach Nanhyfer, ger Aberteifi priodwyd Bethan Bryan Jones, Llwyn Eilian â Robin Holding, unig fab Mr a Mrs Robert Holding,

Felin y Gigfran, Gosmêl, Crymch. Gwasanaethwyd gan y Parch T.J. Jones, y ficer, a gweinyddwyd ar y briodferch gan ei chwaer Nia a Sharon Owen, ffrind ysgol. Darparwyd y wledd briodasol yng Ngwesty'r Cliff, Gwhert, ger Aberteifi, pan ddaeth tua 30 o gyfeillion ynghyd i ddymuno'n ddai'r ddeuddyn. Treuliwyd y mis mêl ar un o ynysoedd Môr y Canoldir.



LLOYD-HUGHES - Gorffennaf 10 priodwyd Melfyn, mab Mr a Mrs William Lloyd, 6 Hafod Olau, Deiniolen â Mair Wyn, merch Mr a Mrs Ceris Wheldon Hughes, 31 Maes Padarn. Gwasanaethwyd gan y Parch Marcus Robinson, a Mr Hugh Peris Pritchard wrth yr organ. Daeth 72 o wahoddedigion i'r arlwy yng Ngwesty Bron Eryri. Mae Melfyn a Mair yn bwriadu cartrefu yn Llainwen Isaf. Dymunir pob llwyddiant iddynt.

EVANS-MORRIS - Yn eglwys St Thomas y Groeslon Awst 7 priodwyd Gwilym, mab hynaf Mr a Mrs M. Evans, Caernarfon, â Bethan merch Mr a Mrs L. Morris, Groeslon. Gwasanaethwyd gan y ficer, y Parch

R.L. Edwards. Gweinyddwyd ar y briodferch gan Sian ac Ann, a'r gwas oedd Garry Jones o Lanberis. Mwynhawyd y wledd briodasol yng Ngwesty'r Gwynedd, ac oddi yno gadawodd y par ifanc am eu mis mêl i Sbaen. Byddant yn cartrefu ym Mryn Crin, Llanberis.

PRITCHARD-MORRIS WILLIAMS - Gorffennaf 10 priodwyd Falmal Morris Williams, merch Mr David Lloyd Williams, a'r ddiweddar Nest Williams, Pen Bryn Llan, Llanefydd, a'r Parch David John Pritchard, mab Mr a Mrs Myrddin Pritchard, 1 Ffordd Padarn. Gwasanaethwyd gan y Parch Eifion G. Jones a'r Parch Gannon John H. Vevar, Botwnnog. Yr organyddes oedd Ruth Owen. Y gwas priodasol oedd Ted, brawd y priodfab, a'r forwyn - Sioned Williams, chwaer y briodasferch. Darparwyd yr arlwy yn Neuadd y Plwyf, Llanefydd lle y daeth tua 120 o gyfeillion ynghyd. Treuliwyd y mis mêl yn lwerddon. Bydd y par ifanc yn ymgartrefu yn Glandŵr, Abersoch. Gweinidog yr Annibynwyr yn Abersoch, Bwlchtocyn, Llanbedrog a Mynytho yw John Pritchard.

DIOLCHIADAU - Dymuna John Pritchard a'i briod ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod yr amgylchiad yma yn eu hanes. Diolcham am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt.

Dymuna Mrs Jean Roberts, 91 Maes Padarn ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogaion am y blodau, anrhegion a chardiau a dderbyniodd tra yn aros yn ysbyty'r Brifysgol Heath, Caerdydd.

DYMUNA Alwyn Lloyd Roberts, Merddyn Coch ddiolch i'w berthnasau, cyfeillion a'i gydweithwyr am eu caredigrwydd tuag ato yn dilyn ei ddamwain yn ddiweddar.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

WYTHNOS Y CARNIFAL — Dechreuodd gweithgareddau'r Carnifal gyda'r Gymanfa Ganu yng Nghapel M.C. Croesywaun. Arweiniwyd gan Mr Haydn Jones. Cafwyd eitemau gan Trefor ac Emyr Jones, Môn ac anerchiad gan y llywydd y Dr Prys Morgan Jones. Rhoddwyd y gwasanaeth agoriadol gan Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan a'r diolchiadau gan Eurig Wyn.

Roedd Neuadd yr Eglwys yn orlawn ar gyfer Seremoni Coroni'r Frenhines Sandra ar y nos Wener. Coronwyd hi gan ei rhagflaenydd, Wendy. Cyfarchwyd Sandra â chân (ei geiriau wedi eu cyfansoddi gan y diweddar Mr T.H. Williams, Drws y Nant) gan barti o enethod (Sian Lloyd Jones, Nia Lloyd Jones, Elliw Haf Iwan, Sian Rowlands, Karen Roberts, Ffion Jackson, Shoned Roberts, Sharon Lewis, Ella Jones, Helen Wyn Hughes, Gwennan Jones, Nan Wyn Jones) a hyfforddwyd gan Mr Wyn Jones, Bron Eifion.

Perfforddiwyd y Ddawns Flodau gan Elin, Rachel, Fflur, Diane, Alaw, Bethan, Susan, Sara Williams a Sarah Morris, Leanne a Heidi. Cafwyd Dawnsio Gwerin dan ofal Len Jones, Penisarwaun. Llywyddwyd gan Irene Roberts a rhoddwyd y diolchiadau gan Llinos Cadwaladr.

Nos Lun cynhaliwyd y Mabolgampau yng nghae'r ysgol dan arweiniad Gareth Jones, Glyn Ceris.

Yr enillwyr oedd:

Rhedeg (genethod), dan 5: 1. Ceryl, 2. Elain, 3. Bethan Roberts. **Dan 7:** 1. Jennifer, 2. Delyth, 3. Kailey. **Dan 9:** 1. Bethan, 2. Gwennan, 3. Sharon. **Dan 11:** 1. Elliw, 2. Sian, 3. Debra. **Dan 15:** 1. Marlene, 2. Sian, 3. Lynne.

Bechgyn dan 5: 1. Ceirion, 2. Deian, 3. David. **Dan 7:** 1. Meilir, 2. Eilir, 3. Rhodri. **Dan 9:** 1. Neil, 2. Osian, 3. Alan. **Dan 11:** 1. Euros, 2. Wayne, 3. David. **Dan 15:** 1. Dafydd, 2. Adrian, 3. Garem.

Ras wy ar lwy, dan 5: 1. Ceryl, 2. Ceirion, 3. David. **Dan 7:** 1. Rhodri, 2. Eilir, 3. Jennifer. **Dan 9:** 1. Clive, 2. Kevin, 3. Gwennan.

Ras tair coes dan 9: 1. Gwyndaf ac Andrew, 2. Osian a Neil, 3. Gwennan a Bethan. **Dan 11:** 1. Euros a Wayne, 2. Sharon a Tina, 3. David a Clive. **Dan 15:** 1. Tina a Marlene, 2. Adrian a Llion, 3. Kevin a Jonathan.

Naid uchel, dan 7: 1. Meilir, 2. Rhodri, 3. Eilir. **Dan 9:** 1. Gwennan, 2. Gareth, 3. Susanne. **Dan 11:** 1. Euros, 2. Wayne, 3. Elliw. **Dan 15:** 1. Dafydd, 2. Adrian, 3. Gwyn.

Naid hir dan 9: 1. Gareth, 2. Neil, 3. Alan. **Dan 11:** 1. Euros, 2. Dylan, 3. David. **Dan 15:** 1. Dafydd, 2. Gerald, 3. Llion.

Ras beiciau araf, dan 9: 1. Rhys, 2. Gwennan, 3. Osian. **Dan 11:** 1. Clive, 2. Garem, 3. Wayne. **Dan 15:** 1. Gerald, 2. Kevin, 3. Gwyn.

Ras ar draws gwlad: 1. Dafydd, 2. Adrian.

Cafwyd noson hwyllog yng nghae'r ysgol nos Fercher lle'r cynhaliwyd Gemau Giamocs rhwng timau y Bont, Canol y Waun a Phlant y Waun dan arweiniad Gareth Jones, Glyn Ceris. Wedi brwydr galed, tim Canol y Waun, a dderbyniodd y

WAUNFAWR



Enillwyr y Wisg Ffansi dan 4 oed.



Cystadleuwyr y Wisg Ffansi dan 8 oed.



Enillwyr cystadleuaeth tim pêl-droed 5-bob-ochr — Tim y Ddraig Goch. Gyda hwy mae Sandra, Brenhines y Carnifal. Mae Huw Ynyr yn absennol o'r llun.

gwpang gan y Frenhines Sandra. Y tim oedd John Cadwaladr, Alan Bevan, Ian Williams, Angela Parry, Ann Dawson ac Yvonne Rowlands.

Gemau pêl-droed 5 bob ochr a gynhaliwyd nos lau a rhan o brynhawn Sadwrn gyda Keith ac Edgar Owen yn ddyfarnwyr.

Y canlyniadau oedd:

Dan 15: Tim y Ddraig Goch (Dylan Pritchard, Huw Ynyr, Adrian Owen, Dewi Evans ac Iwan Roberts). **Dros 15:** The Untouchables (Ted Hopkins, Clifford Parry, Tom Hopkins, Nick Hopkins ac Alwynne Jones).

Bu'r tywydd yn garedig i'r carnifal ar y Sadwrn. Arweiniwyd yr orymdaith gan Fand Jazz a Majorettes Llanllyfni, a chludwyd y Frenhines a'i Gosgordd mewn trol a cheffyl o eiddo Margaret Bevan.

Cynhaliwyd y gweithgareddau yn yr ysgol gynradd dan arweiniad Rhodri Prys Jones, a beirniadwyd y wisg ffansi gan Arfon Wyn a'i wraig Nia.

Bu'r merched yn y caffi ac ar y stondinau yn ddiwyd trwy'r prynhawn.

Agorwyd y carnifal â theyrnged i Mr T.H. Williams, gan Mrs Mary Vaughan Jones ar ran pwyllgor yr Ysgol Feithrin.

Dilynwyd y deyrnged â chân y coroni, ei geiriau wedi eu cyfansoddi gan Mr T.H. Williams.

Canlyniadau'r Wisg Ffansi:

Dan 4: 1. Trystan Bevan, 2. Llion Williams, 3. Gwenno Owen. **Dan 6:** 1. Heddus Gwynedd, 2. Geraint Roberts, 3. Meilir Gwynedd. **Dan 8:** 1. Sam Pierce, 2. Osian Gwynedd, 3. Bethan Wyn a Fflur Llywelyn. **Dan 11:** 1. Ella Jones, 2. Nia Lloyd Jones, 3. Joanne Tame. **Dan 14:** 1. Marlene Roberts, 2. Kevin Roberts, 3. Dylan Pierce ac Adrian Owen. **Dan 18:** 1. Gerald Rowlands.

Addurno beic: 1. Iolo Hughes, Bontnewydd. **Addurno pram:** 1. Aled Rhys Jones. **Grŵp:** Gerald Rowlands ac Adrian Owen. **Y Ffôr Orau:** 1. Mrs Jones Evans. **Cystadleuaeth Fabanod:** Gareth Cadwaladr. **Enillwyr y raffi:** 1. Llwy garu: Glenys Thomas. Bocs o nwyddau: Mrs N. Roberts, 8 Maes Gwynedd, Caernarfon. Cig eidion: Ifan, Ffatri Ferodo. Tocyn llyfr: C.A. Davies, Hafan. Tocyn Record: Gwilym Hughes, 16 Tref Eilian, Potel Sieri, Nerys Thomas, MANWEB, Caernarfon. Potel o win: Andrew Beech. Cyw iâr: Maenanog, Gaerwen. Bocs siocled: Gwyndaf Thomas, 22 Glanrafon, Bontnewydd.

Daeth gweithgareddau'r wythnos i ben gyda Swper y Carnifal yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis yng nghwmni Pererin.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y Carnifal mewn unrhyw ffordd, a thrwy hynny ei wneud yn llwyddiant. Diolchiadau arbennig i swyddogion Neuadd yr Eglwys am gael defnyddio'r neuadd, a hefyd i Mr Leslie Jones a gofalwyr yr ysgol am gael defnyddio'r caeau a'r neuadd.

Bydd £50 o'r elw yn cael ei drosglwyddo i gronfa neuadd y pentref.

ENILLWYR Y CLWB 300: Mehefin — Tynnwyd yn Bro Waun — 1. £40, rhif 259, Dr Huw Roberts, Surgery. 2. £25, (72) Mrs M. Davies, Bryn Eithin, 3. £10, (135), Mrs Jean Jones, Llwyn Onn.

Gorffennaf — Tynnwyd yn Bryn Golau — 1. £40, (297) Evan Owen, Y Becws, 2. £25, (267) J.V. Snape, Bryn Gwyrfa, 3. £10, 137, Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed.

Awst — Tynnwyd yn Tref Eilian — 1. £40, (22) Jane Williams, Fron Dirion, 2. £25, (254) Enthil Jones, 15 Bro Waun, 3. £10, (178) Mrs R.A. Huws, 15 Tref Eilian.

YR YSGOL FEITHRIN — Bydd yr Ysgol Feithrin yn aildddechrau Medi 1 gyda bore coffi i'r mamau ifainc a'u plant, o 10 hyd 11 o'r gloch.

Swyddogion am 1982-83 ac aelodau'r pwyllgor: Llywydd, Jean Jones, Llwyn Onn; Is-lywydd, Carys Owen, Gilfach, Trysorydd, Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon; Is-drysorydd, Christine Davies, Hafan; Ysgrifennydd, Bethan Williams, Bryn Meurig; Is-ysgrifennydd, Carys Jones.

Olwen Williams, Eluned Roberts, Rhian Jones, Jenny Jones, Pat Griffiths, Elisabeth Jones, Heulwen Jones. Gwerthfawrogi unrhyw roddion o deganau mewn cyflwr da i'r Ysgol Feithrin. Cysylltwch â Mrs Bethan Williams, Bryn Meurig. Ffôn 664.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU

T. CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: Llanberis
870205

CYDYMDEIMLWN — â Mrs A. Williams, Drws y Nant, a Mrs Gwenlli Williams, Ardwyn ar golli priod a thad.

â Mrs Bessie Coles, a Mr Joseph Jones, Gadda ar golli brawd.

â Mr Evan Hughes, Bro Waun, ar golli chwaer.

â Mrs Hughes Roberts, 9 Dol Erddi, ar golli priod.

â Mrs M. Slaven, Tref Eilian ar golli brawd.

â Mrs Griffiths, Bryn a Rhian, Gorffwysfa ar golli priod a thad.

Bu farw Mrs Edith May Owen, Bryn Peris yn yr ysbyty ym Mangor. Cydymdeimlwn â'i nith Mrs Nancy Myra Carter.

YN YR YSBYTY — Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am lwyr adferiad buan iawn at y rhai sydd yn wael mewn ysbytai:

Mr W.T. Owen, Noddfa, Mr Gareth Jones, Glyn Peris, Mrs Myfanwy Griffiths, Eirianallt a Mrs Hughes Roberts, Dol Erddi.

ADREF O'R YSBYTY — Croeso adref o'r ysbyty i:

Dylan Jones, Rhandir Mwyn; Helen Hughes, Tref Eilian; Mrs Pat Parry, Ffridd Felan; Miss Rosa Hughes, Tref Eilian; Mr David Griffiths, Tref Eilian; Mr Eric Jones, Tref Eilian; Mr T.A. Thomas, Haulfryn.

Gobeithio eu bod yn parhau i wella. CROESO ADREF — Dymuniadau gorau i Thomas Jones-Parry, Rala, adref o'r Falklands.

DIOLCH — Dymuna Sandra, Brenhines Carnifal Waunfawr a'r teulu ddiolch o galon i bwyllgor yr Ysgol Feithrin am drefnu'r wythnos o weithgareddau ynghlwm â'r Carnifal. Hefyd diolch i'w chyfeillion am y llu anrhegion a dderbyniwyd.

Hefyd dymuna Eric a Rhian Jones, Tref Eilian ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag at Eric tra yn ysbyty Bryn Seiont.

MERCHED Y WAWR — Nos Iau, Medi 23 agorir y tymor newydd gyda sgwrs gan y Prifardd Gerallt Lloyd Owen. Dechreuir y cyfarfod am 7.15 o'r gloch a byddwn yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys.

LLONGYFARCHIADAU — i Janet Greasley, Minafon ar ei dyweddïad ag Alwynne Morris, o'r Bontnewydd.

i Anthony Roberts, Llys Helen ar ei briodas â Gwenda Owen, o Rostryfan.

i Martin Eaglestone, Tremallt ar enni ll gradd (B.Sc.) gydag anrhydedd yng ngholeg Politechneg Birmingham, ac i'w chwaer Wendy ar ei dyweddïad â Geraint o Landwrog.

i Ann Llywelyn Griffiths, Eirianallt, ar ei phen-blwydd yn 21 oed.

i Miss M. Pritchard, Tref Eilian ar ei phen-blwydd yn 90 oed.

i Mr a Mrs Th. H. Williams, Coed Gwydryn, ar ddathlu eu priodas arian.

i Mr a Mrs T.J. Griffiths, Ty'n Ronnen, ar ddathlu eu priodas berll, ac i'w merch Helen ar ei dyweddïad â Leonard Swain o Buckley, Clwyd.

i Mr a Mrs R.O. Jones, Tan y Waun am fod yn daid a nain. Ganwyd mab i'w merch Gwenda.

i Mr a Mrs Gwilym Hughes, Tref Eilian am fod yn daid a nain. Ganwyd mab, Rhys, i John a Heulwen.

i Valmai ac Alwyn, Garreg Fawr, ar enedigeth merch fach, ac i Mr Owen Owens, Glennydd am fod yn daid.

i Mrs Griffiths, Gorffwysfa am fod yn nain, ganwyd merch, Elin, i Rhian ac Emyr.

i Ian Johnstone ar ei lwyddiant yn ei arholiadau yng Ngholeg Technegol Bangor, ac wedi ei dderbyn i goleg Sheffield.

i Janet Dawson ar ei llwyddiant yn ei harholiadau gydag anrhydedd yng ngholeg Technegol Bangor ac wedi cael swydd yng Ngwasg Pantycelyn, Llyfrfa, Caernarfon.

i Mrs J. Parry, Clydfan, ar fod yn nain. Ganwyd merch, Luned, i Gwynfor a Menna.

i Michael Wyn Parry ar ei lwyddiant yn arholiadau Lefel A a chael ei dderbyn i Goleg Prifysgol Lerpwl.

i Mr R. Gwynn Davies, Bryn Eithin ar ei ymdrech ragorol ar yr englyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe.

i'r rhai canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiadau cerddorol: Piano Gradd 2: Karen Roberts, Sw'n y Gwynt; Susanne Woods, Snowdon Ranger Hotel, Rhyd Ddu; Siân Lloyd Jones, Dôl y Coed. Oboe: Gradd 4: Joanna Marston, Blaen y Nant. Bassoon — Gradd 5: Anthony Marston, Blaen y Nant.

i bawb o'r pentref a oedd yn llwyddiannus yn eu harholiadau Lefel O a TAU.

COFIO CYFALL

Daeth cwmwl dros Moel Eilian A thros y Waun i gyd.

Mae'r delyn dan ei gorchudd, A phrifardd bro yn fud. Noswylodd 'Yncl Tom' y plant Ni ddaw yn ôl i Ddrws y Nant.

Y cymwynaswr rhadlon Fu'n gefn i fwy nag un; A garodd ei gymydog Yn well nag ef ei hun. Parhau i'r diwedd wnaeth ei wên, Ac yntau'n gwrthod mynd yn hen.

O'i awen ffrydiodd allan Gyfarchion llon a byw, Ar ddydd pen-blwydd a phriodas Yn gynnes ac yn driw. A balm i lu, af ar fy llw, Fu geiriau cysur T.H.W.

A heddiw fe ddaw adlais I'n clyw yn beraidd sain O'i hiwmor iach a'i smaldod, A'i delynegion cain. Er iddo gilio dros y ffin Erys ei gerddi — fel y gwin.

Emyr Jones Caernarfon

BETWS GARMON

MARW — Gorffennaf 8: Mr Morris Jones ('Moi' Tŷ Coch gynt). Cydymdeimlir â Mr a Mrs H.O. Jones (brawd) a'r teulu.

Awst 10: Mr Emlyn Griffith, Gorffwysfa, Waunfawr. Cydymdeimlir â Mr a Mrs Emyr Evans, Bron y Graig (merch) a'r teulu. Awst 15: Mrs M.C. Jones, Bryn Afon. Cydymdeimlir â Mr a Mrs Iestyn Jones, Bryn Tegid (mab) a'r teulu.

GENI — Gorffennaf 6 ganwyd merch fach — Eleri Haf — i Gwenda ac Edgar Williams, Llwyn Onn, (chwaer i Hefin ac Arwel ac wyres i Mr Gwilym Williams, Bron Fedw).

Awst 11 ganwyd merch fach hefyd i Rhian ac Emyr Evans, Bron y Graig — Elin Wyn — (chwaer i Manon).

BEDYDD — Gorffennaf 3 bedyddiwyd David Vaughan, mab Carol ac Alan Griffith, yng nghapel Salem (wŷr i Mr a Mrs H.O. Jones, Tŷ Coch).

YMRYSO CŴN DEFAID — Roedd yr ymryson yn llwyddiant eto eleni gyda'r gwobrau'n mynd i:

Dosbarth 1: (1) J.R. Griffith, Talysarn. Dosbarth 2: (1) H. Owen, Caergeiliog, Môn; (cyf. 5 a 6) Elwyn Griffith, Waunfawr. Dosbarth 3: (1) J.R. Griffith, Talysarn; (4) Pat McDonald, Waunfawr. Dosbarth 4: (1) Elwyn Griffith; (2) J.G. Jones; (3) Pat McDonald (oll o'r Waunfawr); (4) H.O. Jones, Tŷ Coch, Betws Garmon; (5) Geraint Owen, Waunfawr; (6) O.P. Pritchard, Plas Isa, Betws Garmon.

Cwpan Goffa John Lewis Trosgol: Pat McDonald, Waunfawr. Cwpan dan 21 oed: Huw M. Roberts, Bethel.

Enillwyr y raffi: (1) T. Foulkes, Bethel; (2) Douglas Jones, Penisarwaun; (3) Annie Williams, Llanrug; (4) Robert Owen, Llandegai; (5) T. Parry, Rala, Waunfawr; (6) C. Jones, Llanfairpwll; (7) R. Parry, Pwllheli; (8) Gwilym Owen, Ystrad Isaf, Betws Garmon; (9) J. Hughes, Llanrug.

Dymuna'r ysgrifennydd, Mr H.O. Jones, Tŷ Coch, ar ran y pwyllgor, ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant ysgubol yr ymryson eleni. Hyfryd yw gweld bechgyn ifanc o'r pentref yn cymryd diddordeb ac yn cyfrannu cymaint tuag at y llwyddiant — Meirion Williams, Y Llythyrdy; Iolo ac Eurig Jones, Bryn Tegid; David Williams, Parc; Michael Owen, Ystrad Isaf a Gwyndaf Williams, Ty'n Weirglodd.

LLONGYFRACHIADAU — i Iolo Peredur Jones, Bryn Tegid ar ei lwyddiant yn arholiadau'r Lefel 'A'.

Medi 28 bydd lolo'n dechrau ar ei gwrs mewn Astudiaethau Teledu, Radio a Ffilmiau yng Ngholeg Caergaint.

Dymunir pob llwyddiant eto i'r dyfodol iddo.

GŴYL WERIN CAERNARFON

Hydref 1 a 2

Nos Wener:

NOSON LAWEN

gyda **DAFYDD IWAN**

yn cyflwyno

CILMERI, MEIBION

DWYFOR, GWLITH,

DAWSWYR/GWRYCH

yn THEATR SEILO am 7.30

Mynediad: £2.00

Plant a Phensiynwyr £1.50

Bore Sadwrn

GWEITHDAI

DAWSIO GWERIN

yn

Ysgol Syr Hugh Owen, Ffordd Bethel

9.30 - 12.00

Oedolion - 50c

Plant - 20c

Pnawn Sadwrn

DAWSIO

ar strydoedd

CAERNARFON a BANGOR

Nos Sadwrn:

TWMPATH DAWNS

(a chyw iâr mewn basged)

GWESTY'R ROYAL,

CAERNARFON

7.30 (bwyd am 8.30)

Mynediad: £2.75

Tocynnau a gwybodaeth gan Idwal Williams, Disgwylfa, Llanrug, Caernarfon 3485.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:

LLANBERIS 872285
NEU 871327

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
— ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm

AR GAU
SUL,
MERCHER.

Sauna
Gwely Haul
Wacsio
Slender
tone

SAUNAMDANI

Dydd Llun
Dydd Gwener
12.00-9.00pm

STRYD FAWR
BETHESDA
600140

DEINIOLLEN



Nos Wener, Gorffennaf 9 cymerodd y chwech a welir yn y llun ran mewn cystadleuaeth Noson Lawen yn Llanddeusant, Ynys Môn.

Rhoddasant raglen o dri chwarter awr a dyfarnwyd hwy yn ail gan y beirniad, Mr Aled Lloyd Davies gyda pharti Cemaes yn gyntaf a pharti Rhosybol yn drydydd. Gŵr gwadd y parti oedd Tommy Arfon Parry (neu 'Tommy Becar') a oedd yn cymryd rhan (heb ei ddannedd) o dan yr enw Tomio Becari.

Yn y llun (o'r chwith i'r dde): Annette Bryn Roberts, Marina Bryn Roberts, Olwen Bryn Roberts, Tommy Arfon Parry, Ifan Bryn Roberts a Gwyn Parry.

DIOLCH - Dymuna Mrs Emyr Pritchard, 1 Deiniol Road unwaith eto ddiolch o galon i gymdogion a chyfeillion ardal Deiniolen a'r cylch am y llu cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd tra bu'n ysbyty Gobowen o dan driniaeth lawfeddygol. Maent yn rhy niferus i'w hateb yn unigol. Derbyniad bawb ei diolch llwyr.

Dymuna Mr a Mrs Graeme Sutherland, Penybont, Deiniolen ddiolch o galon i bawb o fro'r 'Eco' a'u cefnogodd i godi £460 i Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych lle mae Robin Wyn eu mab yn ddisgybl. Casglodd Mr Sutherland yr arian yma drwy nofio. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mrs Margaret Jones, 42 Pentre Helen a hefyd Wendy, Rowena a Glyn, ddiolch o galon i'r teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion ac yn arbennig i'r ardalwyr ac aelodau'r Seindorf am eu cydymdeimlad â hwy fel teulu yn eu profedigaeth sydyn o golli priod a thad ac am y llu cardiau o gydymdeimlad a dderbyniodd. Diolch o galon i bawb.

CRONFA CYMORTHAU MEDDYGOL DEINIOLLEN A'R CYLCH - Ers pan ffurfiwyd y Gronfa uchod yn 1980 estynnwyd cymorth i nifer o drigolion yr ardal. Diolchir i bawb am roddion ariannol, rhai ohonynt er cof am anwyliaid. Er mwyn sicrhau cronfa gadarn ar gyfer y dyfodol bwriedir cynnal Noson Goffi yn y Ganolfan nos Wener Medi 10. Gwerthfawrogrir unrhyw gyfraniad, nwyddau ac yn y blaen. Dylid eu danfon i'r Clinig.

Apêl Calcutta a Rajasthan. Mewn canlyniad i Noson Goffi a drefnwyd gan chwarydd eglwys Cefnywaun yn Llys Myfyr yn ddiweddar gwnaed elw o £37.50 tuag at yr apêl uchod.

ER COF - Anfonwyd siec am £258 er cof am Mrs Elizabeth Lewis, 16 Rhydfadog, Deiniolen tuag at Gronfa Gweithwyr Dinorwig. Dymuna'r teulu a threfnwyr y Gronfa ddiolch i bawb.

Dymuna Mrs B. Roberts, 48 Rhydfadog ddiolch i bawb am eu rhoddion a dderbyniodd ar farwolaeth ei hannwyl briod ar ôl gwaeledd hir. Trosglwyddwyd yr arian at Gronfa Ymgrych y Gwaed,

Clinic Dr Korn Ysbyty Môn ac Arfon. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni.

Dymuna Mr John Lewis, Gwerfyl ac Anna, 16 Rhydfadog, Deiniolen ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli priod a mam ac am y llu cardiau a dderbyniodd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Y SEINDORF - Prysor iawn fu hanes y seindorf yn ystod misoedd yr haf. Buont mewn amryw o garnifalau a chyngherddau. Cafwyd tair nos Sul arbennig o dda yn difyrru ymwelwyr ym Metws-y-coed.

Ond ni fu llawenydd heb dristwch. Pan ddychwelodd y Seindorf o Garnifal Llanberis, Gorffennaf 17, daeth newydd syfrdanol am farwolaeth brawd annwyl ac aelod ffyddlon o bwyllgor y seindorf, sef Mr Owen Jones, 42 Pentre Helen (Owie Erw Fair) fel y'i adnabyddwyd gan bawb. Rhoddodd Owie ei wasanaeth di-flino i'r seindorf am flynyddoedd lawer a bydd sôn am ei waith yn ogystal a'r hwyl a'r sbri a gafwyd yn mynd ymlaen yn y cwt-band am amser maith.

Derbyniwch fel teulu gydymdeimlad llwyr aelodau'r seindorf a'r pwyllgor.

Enillwyr Clwb 200 am fis Gorffennaf: 1. Rhif 178, £25, E. Williams, 39 Rhydfadog, 2. Rhif 106, £15, Mrs A. Williams, Ystad, Llanrug, 3. Rhif 124, £5, M. Parry, 27 Lôn Llwyd, Pentraeth.

Gwobrau ychwanegol: £15, RHIF 126, Gwen Howells, Plas Gogarth, Llandudno, £15, 113, G. Williams, Stryd Newydd.

Enillwyr mis Awst: 1. Rhif 178, £25, Mrs K. Lewis, 7 Maes Gwylfa, Deiniolen, 2. Rhif 100, £15, Howel Lewis, Llys Annedd, Deiniolen, 3. Rhif 134, £5, B. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa.

DIOLCH - Dymuna Constance a Les Otter, Afallon, Dinorwig ddiolch i'w

cyfeillion yn Ninorwig, Deiniolen ac Ynys Môn am y cydymdeimlad, rhoddion a chardiau a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam Mrs Otter, sef Mrs Doris Williams. Casglwyd y swm o £166. Trosglwyddwyd yr arian i Gronfa Apêl Ymchwil Meddygol Ysbyty'r Ddinas, Nottingham.

Dymuna'r Frenhines Karen ddiolch i bawb am eu hanrhegion a dymuniadau gorau ar ei choroni'n Frenhines Carnifal Deiniolen. Dymuna'n arbennig ddiolch i'r Ficer ac aelodau ac athrawon Ysgol Sul Eglwys Crist Llandinorwig. Fe aeth Karen a dwy o'i gweinyddesau sef Delyth a Hayley i'r cyfarfod boreuol ddydd Sul, Awst 1 yn eu gwisgoedd. Cyflwynodd y Ficer Feibl i Karen a chopïau o'r Testament Newydd i Hayley a Delyth ar ran yr eglwys. Llun y corau isod.

Dymuna Elfyn Morris, 91 Pentre Helen ddiolch yn fawr iawn i'w deulu a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn un ar hugain oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Lena Rowlands, 12 Pentre Helen ddiolch i'w rhieni am eu rhoddion iddi ar ddathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain, Awst 13, hefyd i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion, am yr holl gardiau a dderbyniodd ac am yr anrhegion a'r arian. Derbyniad pawb ei diolch. Mae'r cardiau a'r dymuniadau da yn rhy niferus i'w hateb yn bersonol. Diolch yn fawr iawn i bawb.

LLONGYFARCHIADAU - i Aled Jones, 2 Tai Gweledfa ar ei lwyddiant yn ei arholiad Lefel A. Mae hefyd wedi cael ei dderbyn i fynd i'r Brifysgol yn Lerpwl. Pob llwyddiant iddo eto yn y dyfodol.

Dymuna Aled Jones, 2 Tai Gweledfa ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r arian a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Cheryl, merch Mr a Mrs Leslie Owen, 70 Penbwlch, Mynydd Llandegai ac Andrew Ward, mab Mr Ward o Fiwmares ddiolch yn garedig iawn i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am yr anrhegion gwerthfawr a dderbyniasant ar achlysur eu priodas, Gorffennaf 31 yn Eglwys Llandinorwig. Gweinyddwyd y briodas gan y Ficer, y Parch Aled Edwards. Byddant yn awr yn cartrefu ym Mhorth-y-gogledd, Deiniolen. Pob lwc iddynt yn eu cartref newydd.

Dymuna Kathleen a Tommy, Prenteg longyfarch Mr a Mrs H.V. Evans, 3 Tai Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont ar ddathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol.

CLWB ELIDIR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod ddydd Mawrth, Mehefin 22 yn y Clinig. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs C. Marren. Mwynhawyd prynhawn difyr yng nghwmni Mrs Gladys Evans yn adrodd penillion a ddysgodd pan yn blentyn. Estynnwyd cydymdeimlad â Mrs Annie Lloyd Jones a Mrs Maggie Morris ar golli chwaer yng nghyfraith yn 16 Rhydfadog. Rhoddwyd y te gan Mrs Nellie Hughes, Mrs Mattie

Foulkes Williams, Mrs Mary Griffith a Mrs Myfanwy Jones. Ddydd Iau, Mehefin 24 aeth yr aelodau ar eu gwibdaith flynyddol i'r Bermo. Cafwyd cinio yng Ngwesty Bron Eifion, Cricieth ac yna ymlaen i'r Bermo, ac adref trwy'r Bala. Ar ran yr aelodau diochodd Mrs Nellie Hughes i lywydd Clwb Elidir am baratoi'r wibdaith. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, Medi 13 yn y Clinig.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Lun, Mehefin 21. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Miriam Lewis. Estynnwyd croeso i Mrs Alice Griffith, Dinorwig a Mrs Nan Jones, 2 Tai Gweledfa oedd yn gofalu am y pleidleisio. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan yr ysgrifennydd. Y pwyllgor newydd fydd: Llywydd: Mrs Miriam Lewis, Is-lywydd: Mrs Beryl Hughes, 50 Rhydfadog; Trysorydd a Dosbarthwr Y Wawr: Mrs Marian Wyn Williams, 4 Tai Caradog; Ysgrifennydd: Miss Kathleen Thomas a Mrs Gladys Jones, Clwt-y-bont. Gofalwyr y trip: Mrs Gwen Hughes, Gwyndy a Mrs Marian Williams, 12 Tai Deiniol. Aelodau eraill y pwyllgor fydd Mrs Dilys Hughes, Mrs Megan Morris, Mrs Medwen Griffith a Mrs Jane Eirlys Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun Medi 20 yn y Ganolfan ac nid yn Neuadd yr ysgol.

Annwyl Syr,

A fuasech yn caniatáu i mi roddi'r cais hwn yn yr 'Eco'. Fel y gwyddoch mae'r Tabernacl, Capel y Wesleiaid wedi ei gau ers tua blwyddyn. Mae'n ofid calon gennym nad ydym hyd yma wedi cael lle i roi Carreg Goffa'r Milwyr o'r Rhyfel 1914-18.

Tybed a fuasai teuluoedd y rhai â'u henwau ar y Gofeb yn medru rhoi awgrymiadau i ni lle y cawn ei gosod? Mae Pwyllgor y Neuadd Bentref yn teimlo gyda gofid, na ellir caniatáu i'w gosod yno. Amgaeaf yr enwau sydd ar y Gofeb:

Yn gywir iawn dros Aelodau'r Wesleiaid Mrs J. Eirlys Williams

John Roberts, Caradog Place yn 24 oed

David D. Jones, Foel Rhiwen yn 26 oed

John D. Jones, Foel Rhiwen yn 24 oed

Tommy R. Williams, High Street yn 19 oed

Evan H. Griffith, Foel Gron yn 33 oed

Y BADAU ACHUB - Yn ddiweddar fe gynhaliwyd Dydd Baneri er budd y Badau Achub. Cyfanswm casgliadau Deiniolen, Dinorwig a'r Fachwen oedd £63.02. Y casglwyr oedd Miss M. Marzelos - £11.36; Mrs E. Hughes - £4.50; Mr Clifford Davies - £11.90; Mrs Ph. Jones a Mrs N. Price - £9.40; Miss I. Williams, Dinorwig a'r Fachwen - £10.37; Miss Wendy Jones, Miss Yvonne Jones, Miss E. Lewis - £4.00; Mrs C. Price - £11.49.

Roedd hyn yn cynorthwyo'r trefnwyr i wneud cyfanswm cylch Caernarfon yn £1297.53. Y trefnydd lleol oedd Mrs C. Price. Diolch i bawb am eu hymdrech.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Bydd Sefydliad y Merched yn cyfarfod nos Lun, Medi 6 am 7 o'r gloch.



W.J. GRIFFITH

**PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG**

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL

**SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP**



Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

*Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.*

DEINIOLLEN (parhad)

AGOR Y GANOLFAN



Mr R. Williams, Y.H. a Mr Richard Jones, Abergele yn ystod seremoni Agor y Ganolfan yn Neiniolen.

**Cofiwch am
EISTEDDFOD GWAUN GYNFI
sydd i'w chynnal
Sadwrn, Rhagfyr 4
yng Nghapel a festri Ebeneser**

TAN-Y-COED

Dydd Mawrth, 13 Gorffennaf yng Nghapel Tan-y-coed M.C. cyfarfu Henaduriaeth Arfon. Am 6.00 o'r gloch bu Eisteddiad Derbyn Blaenoriaid, Mr D. Glyn Owen, Pontrhythallt yn arwain gyda'r ymddiddan a'r holi.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus am 7.00 o'r gloch - Cyfarfod Ordeinio'r blaenoriaid - yr ordeiniad dan arweiniad Llywydd y Gymdeithasfa y Parch Richard Williams, B.A., B.D., Amlwch.

Yn ystod Gorffennaf hefyd cynhaliwyd Cyfarfod Dosbarth Cylch Llanberis a Llanrug yn Nhan-y-coed. Y siaradwr gwadd oedd y Parch W.O. Roberts a'r mater oedd Y Cristion fel Cymydog. Llywyddwyd gan Mr John Wyn Owen, Llywydd y Dosbarth.

LLONGYFARCHIADAU - i Mrs Elizabeth Williams, 2 Tai Minffordd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 89 mlwydd yn ddiweddar. Llonyfarchiadau'r ardal iddi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Llawenydd mawr i Mrs E.J. Ellis, 3 Tai Bryngwyn oedd clywed am lwyddiant ei hŵyr, David Ellis. Wedi gyrfa lwyddiannus ym Mhrifysgol Warwick ac ennill gradd bydd David yn dechrau mewn swydd gyda chyfrifaduron ym mis Medi yn Llundain. Llonyfarchiadau iddo a dymuniadau gorau'r ardal iddo i'r dyfodol.

Llonyfarchiadau hefyd i Manon Llwyd Evans, Carwyn ar ennill y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth arlunio cenedlaethol i blant dan 15 oed a drefnwyd gan Gyngor Sir Gwynedd a chwmni HTV i goffáu Llywelyn Ein Llyw Olaf (1282-1982).

Y mae Manon i'w llonyfarch hefyd am basio Arholiad Ffidil Gradd 2 gyda theilyngdod, arholiad y Coleg Cerdd Brenhinol.

Tra'n paratoi'r newyddion hyn, daeth gwybodaeth am lwyddiant Margaret Ellen Roberts yn y ddau bwnc a safodd yn Arholiad Lefel O, sef Mathemateg Ychwanegol ac Ystadegau, a lwyddiant Gareth Lloyd Jones, Hafod Owen yn y pynciau a safodd ef yn Arholiadau

Lefel O a TAU.

Bydd Margaret yn mynd ymlaen yn yr ysgol i sefyll Arholiad Lefel A, a Gareth yn dechrau ar gwrs peirianyddol yn y Coleg Technegol ym Mangor yn y dyfodol agos.

Pob llwyddiant i'r ddau ac i Linda Wynne Jones, Pant Clyd gynt, hithau wedi bod yn llwyddiannus yn y pwnc a safodd yn Arholiad Lefel O, a'r pynciau a safodd yn Arholiad TAU. Bydd Linda yn dechrau ar gwrs ar gyfer darpar-nyrsus yng Ngholeg Technegol Bangor Medi 1.

Diddorol oedd gwrando ar Mrs Rhiannon Stokes, Awelfryn yn cael ei holi ynglŷn â'i gwaith gyda Bysiau Arfon, gan Ruth Parry ar y radio, bore Mawrth, Awst 24. Cawsom ein hatgoffa fod gan Mrs Rhiannon Stokes ddeng mlynedd o brofiad fel gyrrwr bws yn y wlad hon ac ar y Cyfandir - profiad anghyffredin i ferch ieuanc.

Un arall o'r ardal a fu'n llwyddiannus yn ddiweddar yw Mr Dylan Bryn Jones, 3 Tai Tan-y-coed, peirianydd yn y Clogwyn. Llwyddodd mewn arholiad terfynol beirianyddol dan nawdd y 'City and Guilds' Llundain ar ddiwedd ei gwrs yng Ngholeg Technegol Bangor. Llonyfarchiadau iddo.

CROESO i'n plith i deulu newydd Pant Clyd, Mr a Mrs Chohan a'u merch Neelem, a'u mab Imran Aneel.

Dymunwn adferiad buan i Mrs Anwen Williams, 3 Tai Minffordd sydd newydd adael yr ysbyty ar ôl triniaeth lawfeddygol. Gyda'i rhieni yn Nhalysarn y mae Mrs Williams ar hyn o bryd. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn ôl yn Llanrug, wedi gwella'n llwyr.

MARW - Awst 3 brawychwyd yr ardal gan y newydd trist am farwolaeth sydyn Mr William John Humphreys, Clawdd Llwyd yn Ysbyty Môn ac Arfon. Calddwyd ef ym mynwent Llanrug Awst 6, gyda'r Parch W.O. Roberts yn gwasanaethu.

Cydymdeimlwn â'i briod, Mrs Ceinwen Humphreys, a'i blant, Ronni, Islwyn a Christine a'r teulu oll yn eu galar.

CASGLU CERRIG

DAETH y llythyr canlynol i law oddi wrth Mrs Grace Roberts, Awstralia (Bryn Tirion, Llanrug gynt). Mae'n llythyr diddorol sy'n adrodd ei hanes yn casglu gwahanol gerrig yn Awstralia. Bydd y gweddill o'r gyfres "Casglu Cerrig" yn parhau y mis nesaf.

Difyr iawn oedd darllen y gyfres newydd ar "Gasglu Cerrig" ar dudalen y plant. Nid plant yn unig sydd â diddordeb mewn cerrig. Pan ddaethom allan i Awstralia bymtheng mlynedd yn ôl, deuthum â charreg oddi ar ochr yr Wyddfa gyda mi, nid oherwydd fod gennyf ddiddordeb mewn cerrig yr adeg honno, ond am fy mod eisiau dod â darn o Gymru gyda mi i'r wlad newydd. Bellach, mae'r garreg honno oddi ar yr Wyddfa yn rhan o gasgliad llawer iawn mwy.

Rhyw bedair blynedd yn ôl dechreuodd y gŵr a minnau grwydro o gwmpas Awstralia - gwlad sy'n gyfoethog iawn mewn gwahanol fineralau. Dechrau trwy chwilio am aur a wnaethom, a throi'n ddiweddarach at gerrig. 'Sapphire' ydi'r ffefryn ar hyn o bryd, ond nid gwaith hawdd yw dod o hyd iddynt. 'Fossickers', 'Rock Hunters' neu 'Gem Hunters' y gelwir pobl fel ni; mae rhai'n ein galw'n 'ffyliaid'.

Cyn cychwyn ar y daith, mae'n rhaid i chwi wybod am beth i'w geisio - sut mae'r garreg noeth yn edrych, ac mewn sut fan i'w chael. Rhaid cael yr offer iawn wrth gwrs, ond yn bwysicach yn Awstralia, rhaid cael trwydded - 'Fossicker Licence' neu 'Prospector Licence'.

Dowch efo ni ar siwrnai o Sydney i ochr draw y 'Blue Mountains', ac i'r dref fechan o'r enw Oberon: gwaith tua tair awr a hanner o dynnu carafan. Cychwyn ar ôl 'swpar chwara' (tua 6.30) ar nos Wener, a chyda lwc, cyrraedd Oberon mewn pryd i osod y garafan yn ei lle a chael paned a sgedan cyn noswyllo. Bydd yn rhaid codi'n gynnar fore Sadwrn os am ddiwrnod da o gasglu cerrig.

Yn y bore, fy ngwaith i fydd paratoi brecwast a hefyd paratoi bwyd ar gyfer canol dydd. Bydd y gŵr yn y cyfamser yn casglu holl offer angenrheidiol at ei gilydd ac yn gwneud yn siŵr fod digon o ddŵr gennym (rhaid cario dŵr mewn drwm mawr yng nghefn y car). Mae'r offer yn cynnwys caib a rhaw, dwy ogor, caib fechan, hen driwal blaen main, bocs tabledi'gwag a 'tweezers'.

Oherwydd fod nadroedd a phryfed cop gwenwynig yma, rhaid gwisgo dillad addas - trowsus a sana wedi eu codi drosto at y penguin - rhag i unrhyw beth ddringo i fyny coes y trowsus! Wedi gyrru oddi ar y briffordd am tuag ugain munud - lôn drol, a elwir yma yn 'bush track' - dyma ni wedi cyrraedd y 'Vulcan State Forest'.

Dod o hyd i 'bilabong' (twll a dŵr yfed i anifeiliaid) a llenwi'r drwm gwag efo dŵr nes ei fod tua tri chwarter llawn. Yna chwilota am

wely afon sydd wedi sychu - yn y rhain mae canfod y 'sapphire'. Rŵan bydd y gwaith caled yn dechrau.

Mae'r 'sapphire' bob amser i'w chael mewn gwythien lwyd ei lliw, ond nid ar yr wyneb bob amser. Rhaid tyllu trwy'r clai coch nes ei chyrraedd. Gall hyn olygu troedfedd neu ddeg troedfedd o waith cloddio. Yr arwydd cyntaf yw dod ar draws talpiau o 'Quartz' gwyn. Mae 'sapphire' yn drymach na 'quartz', ac felly yn is yn y clai coch. Rhaid bod yn ofalus rŵan, a defnyddio'r gaib fechan - 'fossicker pick'. Gyda lwc gellir gweld y 'sapphire' â llygad noeth. Cawsom lwc fel hyn rhyw ddau fis yn ôl, a chanfod 'sapphire' las tywyll, 2 carat. Nid yn aml mae hyn yn digwydd.

Fel arfer, rhaid cario'r pridd llwyd i'r drwm dŵr. Gosod yr ogor fras ar ben yr ogor fân a thywallt y pridd i mewn i'r uchaf. Yna dowcio'r ddwy i'r dŵr a'u hysgwyd yn dda nes golchi'r pridd i ffwrdd a gadael pob math o gerrig ar ôl. Y gwaith nesaf yw chwilio trwy'r gwahanol gerrig am liwiau gwahanol: mae'r 'sapphire' yn dod mewn glas tywyll, glas golau, gwyrdd, melyn neu gymysgedd o liwiau. Os bydd y cerrig yn fân iawn rhaid defnyddio'r 'tweezers'. Caiff yr holl gerrig eu cadw'n y bocsus tabledi'gwag.

Fydd y cerrig mân iawn fawr o werth, ond gall y rhai o faint eich ewin fod yn werth tua 2 carat. Weithiau bydd baw yn ei chanol a rhaid ei glanhau a'i thorri i lawr a'i sgleinio.


Yn ein casgliad ar hyn o bryd mae llwch aur, 'sapphire', 'zircon', 'soapstone', 'crystal quartz' a 'jasper'. Mawr obeithio y bydd ein hanes ni o ryw ddiddordeb i chwi.

Grace Roberts,
16 Wyalong St., Panania 2213, Sydney.

GOL: Anfonodd Mrs Roberts samplau o gerrig i ni hefyd sef 'sapphire', 'zircon' a 'quartz'. Maent yn rhai eithaf mân ond y mae eu lliw yn werth i'w gweld. Mae Mrs Roberts yn awgrymu eu cadw mewn glycerine neu o fewn gwydr ffeibr clir.

Llawer o ddiolch am lythyr hynod o ddiddorol.

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981**

06190 – O CHWECH I NAW DEG!

MYNYDDOEDD CYMRU



Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
DYFRIN
Y
DEWIN

CHWEDLAU MORLADRON YR YNYSOEDD PELL
GWYDION A'R MÔR-LADRON DUON

Y tro diwethaf –

ROEDD Gwydion Wyrdd wedi derbyn potel fach ddu gan y Wrach Ddu i'w arbed rhag y Môr-ladron duon. Ond, a oedd y Wrach Ddu wedi ei dwyllo er mwyn cadw'r sach aur iddi ei hun?

Ymlaen â'r stori –

Hwylodd Gwydion Wyrdd tuag at Ynys y Môr-ladron Duon. Nid oedd yn teimlo'n hapus iawn, ond roedd eisiau'r gemau'n fawr iawn. "Efallai y byddaf yn lwcus," meddai wrtho'i hun, "efallai na fydd y môr-ladron yno."

Roedd ei long bellach yn agos iawn i'r ynys. Roedd yr ynys yn llawn o greigiau du. Doedd dim coed o gwbl ar yr ynys. Roedd y tywod ar y traethau o liw du! Doedd Gwydion ddim yn hoffi golwg yr ynys, ond roedd o eisiau'r gemau, felly hwylodd ymlaen.

Ar un ochr i'r ynys roedd creigiau mawr du. Ar ochr arall yr ynys roedd creigiau bychan du. Doedd Gwydion ddim yn siŵr iawn ym mha ochr roedd y gemau wedi eu cuddio. Beth ddywedodd y he wrach wrtho? Ger y creigiau mawr? Na, ger y creigiau bychan. Na, na! Ger y creigiau mawr. Ie, y CREIGIAU MAWR!

Glaniodd ar yr ochr o'r ynys lle'r oedd y creigiau mawr du. Edrychodd Gwydion o'i gwmpas. Doedd neb i'w weld o gwbl. Gobeithio nad oedd y Môr-ladron Duon yno. Gwelodd ogof yng nghanol y creigiau duon. Aeth Gwydion i mewn i'r ogof.

Roedd y Môr-ladron Duon yn eistedd o gwmpas tân bychan ar ochr arall yr ynys. Roeddynt wedi gweld llong Gwydion yn hwyllo heibio ac wedi ei gwyllo yn glanio ym mhen arall yr ynys. Roedd y Môr-ladron Duon wedi dringo dros y creigiau ac

wedi cyrraedd mewn pryd i weld Gwydion yn cerdded i mewn i'r ogof.

I mewn yn yr ogof, roedd Gwydion yn hapus iawn. Roedd o wedi anghofio popeth am y Môr-ladron Duon. I mewn yn yr ogof roedd sachau yn llawn gemau llachar. Aeth Gwydion â rhai o'r gemau allan o'r ogof a'u gosod ar y tywod. Roedd y gemau yn sgleinio yn yr haul. Roedd Gwydion wedi ei swyno cymaint gan liwiau'r gemau fel na sylwodd ar ben un o'r Môr-ladron Duon yn codi o'r tu ôl i graig i'w wyllo.

Aeth Gwydion yn ôl i'r ogof a chario sach cyfan o'r gemau allan. Ond fel yr oedd Gwydion yn cerdded ar hyd y tywod, camodd un o'r Môr-ladron Duon o'i flaen.

"O!" meddai Gwydion. Yna, daeth Môr-leidr Du arall o'r tu ôl iddo.

"O!" meddai Gwydion. O fewn ychydig, roedd y Môr-ladron Duon o'i gwmpas.

"O! Bobol bach! Be wna'i?" meddai Gwydion.

Ddywedodd y Môr-ladron Duon ddim byd. Ond roedd pob un ohonynt yn dod yn nes ac yn nes at Gwydion.

Yn sydyn, cofiodd Gwydion am y botel fach ddu a gafodd gan y Wrach. Estynnodd y botel o'i boced, ond cyn iddo fedru yfed ohoni, roedd un o'r Môr-ladron Duon wedi gafael ynddi.

M	D	E	F	R	E	P	D	Y	N	Y	M	C	H	P
O	C	A	D	E	R	I	D	R	I	S	C	T	M	
E	B	A	F	D	Y	W	R	Y	P	A	D	E	O	
S	S	Y	R	A	P	I	U	U	R	O	P	C	H	E
T	C	E	F	N	D	U	M	N	B	Y	A	H	L	
L	R	Y	R	I	E	L	E	A	N	R	R	I	C	
A	W	Y	L	D	U	D	I	T	G	N	E	R	Y	
M	C	H	E	F	M	D	S	L	L	N	L	N	A	N
O	A	N	G	O	A	L	P	E	E	Y	F	I	E	H
E	B	N	F	E	N	O	T	H	W	I	G	T	H	O
L	M	Y	O	N	F	C	H	F	I	R	E	F	O	R
W	D	M	C	H	D	I	R	R	H	W	E	R	L	G
Y	C	H	O	G	N	R	Y	G	E	B	Y	P	Y	O
N	T	I	C	A	R	N	E	M	U	G	A	I	N	

Mae 25 o fynyddoedd Cymru wedi eu cuddio uchod. Dyma'u henwau:

Carnedd Dafydd, Carnedd Llewelyn, Carnedd Ugain, Moel Cynghorion, Cader Idris, Moel Siabod, Lliwedd,

Nicht, Tryfan, Drum, Yr Eifl, Foel Grach, Hiraethog, Gyrn Goch, Arenig, Mynydd Perfedd, Cefn Du, Epynt, Yr Wyddfa, Pumlumon, Manod, Moelwyn, Elidir, Berwyn, Parys.

"Rŵan!" meddai'r Môr-leidr Du. Daeth un arall o'r Môr-ladron o'r tu ôl i Gwydion a'i daro'n ei ben. Eisteddodd Gwydion yn syn ar y tywod.

"Ceisio dwyn ein gemau ai e?" meddai'r Môr-leidr Du.

"Wel," meddai Gwydion, "fel hyn mae..."

"Taw!" meddai'r Môr-leidr Du. "Rwy'ti wedi dy ddal yn dwyn ein gemau. Bydd yn rhaid i ni dy ladd."

"O! Peidiwch a gwneud hynny," pliedd Gwydion.

"Ydan, ryda ni am dy ladd," atebodd y Môr-leidr Du, "ond cyn hynny, beth am ddiod o'r botel fach ddu."

Yfodd y Môr-leidr Du o'r botel, ac yn ei rhoi i'r nesaf o'r Môr-ladron. Cafodd pob un ohonynt ddiod yn ei dro. Ac yna, fesul un ac un, disgynnodd y Môr-ladron Duon i lawr ar y tywod a chysgu'n drwm. Edrychodd Gwydion mewn syndod arnynt, yna, edrychodd ar y botel fach ddu. Ac yna, edrychodd yn ôl ar

y Môr-ladron Duon.

"Yr hen wrach," meddai, "dyna hen wrach ddrwg yn ceisio fy nhwyllo."

Yn ddistaw, cododd Gwydion ar ei draed a gafael yn y sach gemau. Roedd y Môr-ladron yn dal i gysgu. Aeth Gwydion â'r sachau gemau i'w long, ond roedd gormod o ofn arno i fynd i nôl y gweddill o'r sachau rhag i'r Môr-ladron Duon ddeffro.

Hwylodd Gwydion ymhell i ffwrdd o Ynys y Môr-ladron Duon ac ni ddaeth byth yn ôl. Felly, ni chafodd wybod beth wnaeth y Môr-ladron ar ôl deffro, na beth ddigwyddodd i'r Wrach a geisiodd ei dwyllo. Ond nid oedd Gwydion yn poeni am hynny.

Beth am gyfraniadau i'r dudalen?

Anfonwch stori, jôc neu gartŵn i Dyfrin y Dewin, Bron-y-Nant, Llanrug.

CASGLU CERRIG

Mae hanes casglu cerrig yn Awstralia ar dudalen 9.

CYNHADLEDD PLANT A'U LLYFRAU
GREGYNOG, POWYS

RHAGLEN

NOS WENER 1 HYDREF

5.00 - 6.30 Cofrestru 7.00 Cinio
8.00 Straeon Ysbryd i Blant gan Dr Gweneth Lilly

DYDD SADWRN 2 HYDREF

8.30 Brecwast
9.30 The Role of the Editor gan Margaret Clark 11.00 Coffi
11.30 Ymateb y Plant 1.00 Cinio
2.00 Achilles in Aljiira gan Alan Garner 4.00 Te

5.00 (Talking and Writing) about children's books gan Aidan Chambers
7.00 Cinio 8.00 Ffilm

DYDD SUL 3 HYDREF

8.30 Brecwast
9.30 Trafodaeth - Golygu ac Adolygu Llyfrau Plant yng Nghymru
11.00 Coffi 11.30 Cloriannu a Chloi
1.00 Cinio Diwedd y Gynhadledd

Treuliwn y rhan fwyaf o'n hamser yn y gynhadledd eleni yn ystyried cyfraniad

y golygydd a'r adolygydd i fyd llyfrau plant. Cawn wybod beth yn union yw swyddogaeth y golygydd; pa llyn mesur y mae'n ei ddefnyddio wrth roi ei farn ar lawysgrif, a sut mae'n meithrin y berthynas arbennig sy'n bodoli rhyngddo ef a'i awdur. Ac ar ôl: lyfr gael ei gyhoeddi caiff yr adolygwr yntau, gyfle i fynegi ei farn. At bwy mae ef yn anelu ei sylwadau - ai y prynwr - boed riant neu athro, neu at y darlennydd, y plentyn ei hun? A beth yw barn y plant? - Cawn eu hymateb hwy i'w llyfrau.

Pris y gynhadledd gyfan £27.50. Gellir mynychu rhannau'n unig os dymunir. I ymaelodi, neu am ragor o fanylion anfoner at:
Y Swyddog Llenyddiaeth (Cymraeg)
Cyngor Celfyddydau Cymru
9 Stryd yr Amgueddfa
Caerdydd, CF1 3NX, cyn 14 Medi.
Dylid gwneud y sic yn daladwy i Gyngor Celfyddydau Cymru.



GWYL HEDDWCH
BLAENAU FFFESTINIOG

DYDD SADWRN, MEDI 18, 12.00 TAN YR HWYRNOS
YN YSGOL Y MOELWYN
A'R GANOLFAN GYMDEITHASOL

DIGWYDDIADAU'R DIWRNOD
YN CYNNWYS
THEATR, FFILM, GRWPIAU GWERIN
ROC A PYNC
GWETHGAREDDAU ARBENNIG I'R PLANT
A MEITHRINFA

DIGWYDDIADAU GYDA'R NOS
YN CYNNWYS
THEATR BARA CAWS
CANU GWERIN - TECWYN IFAN
FIRBOLG AC ERAILL

SIARADWYR YN Y RALI A
GRWPIAU TRAFOD YN CYNNWYS
E.P. THOMPSON
DAFYDD ELIS THOMAS, A.S.
GWYNFOR EVANS
GERAINT BOWEN

RHAGLEN CYDA MANYLION AC AMSERLEN 25c
Ffwrdael o'r 11.00, Ffestiniog, Gwynedd. Ffôn (074 674) 2739
Trefnydd gan Y.D.N. Blaenau Ffestiniog a Gwybodaeth Gwynedd

STORFA

Mace
O.R. & M.
PARRY
Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

TRIGOLION RHYFEDD YNYS TISIAN – PWY YW PWY?



AELOD O BA LLWYTH?

Ar Ynys Tisian mae tri llwyth o bobl. Mae llwyth yr Wga yn dweud y gwir bob amser. Mae llwyth yr Oga yn dweud celwydd bob amser. Mae llwyth Wga-Oga weithiau e gwir ac weithiau'n dweud celwydd. I ba llwyth y mae'r tri sy'n y llun yn berthyn?

CARTWNAU MIS MEDI



Ateb:
A - Wga; B - Wga-Oga; C - Oga.

WIL CWAC CWAC S4C

Dyma Wil Cwac Cwac a rhai o'i ffrindiau o Gaerdydd. Maent newydd orffen gwneud record sengl newydd ar gyfer ei raglen deledu newydd.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652



Y TRI YN UN

(Y Gwasanaeth a Sefydlodd Achos Newydd yn Llanberis)
Ymddangosodd gyntaf yn rhifyn Gorffennaf 30 o'r 'Goleuad'.

Wedi dirwyn yr achosion Presbyteriaidd yn Llanberis i ben, yn ystod mis Mehefin, cafwyd gwasanaeth hanesyddol i serfydlu achos newydd yn adeilad yr 'hen Gapel Coch', nos Iau, Gorffennaf 1. Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i ddeisyf am fendith Duw ar yr achos newydd.

Wedi gweddi agoriadol gan y Llywydd, y Parchedig Ednyfed Thomas, Llywydd Henaduriaeth Arfon, aed ymlaen gyda'r rhannau arweiniol. Yr emyn cyntaf oedd un adnabyddus David Jones, Treborth (brawd John Jones, Talysarn, a diddorol yw sylwi y bydd pulpud Preswylfa yn mynd yn rhodd i eglwys Talysarn), "Mae Duw yn llong pob lle." Fe'i lediwyd gan Mr T.H. Jones (Ysgrifennydd yr Achos Newydd), ac yna fe ddarllenwyd rhan o ddeuddegfed bennod llythyr cyntaf Paul at y Corinthiaid, gan y Parchedig Marcus W. Robinson (Gweinidog yr Achos Newydd), yn ein hatgoffa, "Yn awr, chwi yw corff Crist, ac y mae i bob un ohonoch ei le fel aelod." (ad. 27). Fe arweiniwyd mewn gweddi gan y Parchedig Meirion Ll. Davies (fu ar un cyfnod yn weinidog ar Gorffwysfa a Phreswylfa), ac wedi canu emyn arall yn sôn am "Eglwys Dduw fel dinas wych" a lediwyd gan Mr G. Searell Jones (blaenor o eglwys Rehoboth, sydd yn rhan o'r Ofalaeth) aed ymlaen at uchafbwynt y gwasanaeth.

Darllenodd y Llywydd ddatganiad yn mynegi mai ein pwrpas wrth ddod at ein gilydd oedd sefydlu achos newydd, yn rhan o Henaduriaeth Arfon. Yna gofynnodd i'r rhai oedd yn dod yn aelodau yn yr achos

newydd i sefyll ac ateb dau gwestiwn, y cyntaf ynglŷn â'u ffyddlondeb i'r achos, a'r ail am eu teyrngarwch i'r Cyfundeb. Wedi derbyn atebiad cadarnhaol i'r ddau, fe ofynnwyd i aelodau Henaduriaeth Arfon oedd yn bresennol, sefyll ac arwyddo, trwy godi eu deheulaw, eu bod yn fodlon i achos newydd gael ei sefydlu. Cafwyd ymateb cadarnhaol. Yna â'r holl gynulleidfa yn sefyll, cyhoeddodd y Llywydd: "Yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, Pen Mawr yr Eglwys, a thrwy awdurdod Henaduriaeth Arfon, yr wyf yn cyhoeddi bod achos newydd yn y lle hwn, o fewn Eglwys Presbyteriaidd Cymru. Yn awr Corff Crist ydych ac aelodau o ran.

Gras ein Harglwydd Iesu Grist a fyddo gyda chwi oll. Amen." Yn dilyn y datganiad cafwyd gweddi dan arweiniad y Parchedig John Owen, Rhuthun a fu yn weinidog ar y dair eglwys oedd yn uno.

Cafwyd annerchiadau i gyfarch yr achos newydd gan y Parchedig Trefor Lewis, Deiniolen, ar ran Henaduriaeth Arfon. Bu Mr. Lewis a Mr. Gwilym Williams, blaenor ym Mrynrefail, yn cynrychioli'r Henaduriaeth ar y pwyllgorau a gynhaliwyd i arwain at yr uno, ac y mae'r cyfeillion lleol am ddiolch iddynt am eu gwasanaeth.

Diolchodd Mr Lewis am gael bod yn bresennol, gan ddweud y buasai pawb yn medru ymfalchïo fel Max Boyce gan ddweud "I was there." Siaradai'r Parchedig W.O. Roberts, ar ran Dosbarth Llanberis, a gweinidog capel Jerusalem, yr Annibynwyr, y Parchedig Huw J. Hughes ar ran y Cyngor Eglwys. Pob un ohonynt yn dymuno'n dda, gan ofyn i'r achos newydd dynnu'r gorau o'r gorffennol gan wybod fod Duw yn galw arnom o'r dyfodol i ddilyn yn ôl ei droed.

Ysgrifennydd Henaduriaeth Arfon, y Parchedig John Owen, Bethesda lediodd yr emyn nesaf, "Na'd im adeiladu'n ysgafn, Ar un sylfaen is y ne': ... Nid oes le, is y ne', I adeiladu ond Efe." Yna bu i'r Parchedig Meirion Lloyd Davies a John Owen, fel cyn-weinidogion, longyfarch yr achos ar gymryd y cam creadigol hwn, gan ddymuno pob llwyddiant i'r dyfodol. Dim ond tri o

gyn-weinidogion yr eglwys i unwyd sydd bellach ar dir y byw, a drwg oedd deall na allai'r Parchedig J.L. Mathias fod yn bresennol. Anfonwyd ein cofion ato. Cafwyd gair gan y gweinidog presennol, ac wrth iddo ddiolch am yr hyn a fu, apeliodd ar i bawb gofio mai'r ffordd orau ymlaen yw trwy dderbyn a gweithredu yng ngrym cariad Crist. Yna, fe ofynnodd y Llywydd i'r gynulleidfa ddarllen yr emyn olaf, sydd yn sefydlu nod y Cristion, "Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd ... O! am aros yn ei gariad ddyddiau f'oes." Gyda'r Llywydd yn cyhoeddi'r fendith daeth gwasanaeth arbennig iawn i derbyn.

Yn awr, gwahoddwn eich gweddïau am nerth ac arweiniad Duw i'r achos newydd, oherwydd fe wyddom i gyd mai ofer popeth oni bai ein bod yn gweithredu yng ngrym ei gariad Ef.

M.W.R.

LLUNIAU O'R CYFARFOD SEFYDLU



CWM-Y-GLO

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs G. Hobby, Gernant ddiolch i'w ffrindiau a'u cymdogion am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn y ddamwain a ddioddefodd Graham yn ddiweddar.



CROESO ADREF I GWM-Y-GLO - Roedd croeso bythgofiadwy yng Nghwm-y-glo i un o'r 'Gwarchodlu Cymreig', Wyn Sinclair, sydd yn 18 mlwydd oed, adref o'r Falklands. Fe hwyliodd Wyn i'r Falklands ar y QE2 a dod adref trwy Brize Norton gan gael ei groesawu adrefn ôl gan Dywysog Cymru. Roedd pawb yng Nghwm-y-glo yn falch iawn o Wyn ac fe drefnwyd parti iddo gan ferched o'r pentref.

Daeth dros 200 i'w groesawu adrefn ôl yn yr ysgol, lle roedd bwyd i bawb. Roedd grŵp pop 'Tumbledown Wind' yno a Raymond Jones o Lanrug yn rhoi'r adloniant.

Cyflwynwyd Tankard Arian i Wyn gan Mr Evan G. Owen ar ran yr holl bentrefwyr, a chafodd botel o champagne gan Mr Gwilym Williams

ar ran tîm pêl-droed y pentref lle roedd Wyn yn aelod i fyny i ddwy flynedd yn ôl.

Siaradodd y Cyngorydd Francis Jones, Maer Arfon, Mr Eurwyn T. Jones, cyn-brifathro Wyn, Major Robin Jones, o Gadlanciau'r Fyddin, y Parch Aled Jones Williams a'r Cyngorydd Brian Jones, ac roeddynt i gyd yn dangos eu gwerthfawrogiad o'r Gwarchodlu Cymreig oedd wedi mynd i'r Falklands, ac yn falch iawn o weld Wyn adrefn ddiogel.

CINIO GWOBWRWYO - Cynhaliwyd cinio gwobrwyio Tîm Pêl-droed Iau, Cwm-y-glo yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug nos Wener Mehefin 25. Mr T.N. Williams, ysgrifennydd Cynghair Gwyrfaidd oedd yn anrhegu'r chwaraewyr gyda thylsau am ddod yn ail yn yr adran gyntaf. Roedd Mr B. Haines, Maer Caernarfon a Chadeirydd Cynghair Gwyrfaidd yn bresennol i anrhegu'r canlynol: Chwaraewr y Tymor: Kevin Wyn Owen, Cydradd ail am Chwaraewr y Tymor: Steven Owen a Gwyn Morris. Scoriwr Uchaf y Tymor: Gwyn Morris, (25 gôl).

Cyflwynodd Steven Owen, capten y tîm, dlws ar ran y chwaraewyr i'w rheolwr, Mr G. Williams, ac fe dderbyniodd dlws oddi wrth rhieni y bechgyn hefyd. Fel gwerthfawrogiad o'i wasanaeth gyda'r gwaith o gymorth cyntaf dros y pum mlynedd diwethaf, fe anrhegwyd Mr E.G. Owen gan y capten ar ran y chwaraewyr.

Dymuna'r Clwb Pêl-droed ddiolch yn gynnes i bawb a fu'n eu cefnogi, mewn unrhyw fodd yn ystod tymor 1981-82.

Ddydd Sadwrn, Medi 18 am 1.30 o'r gloch - Sioe Gwningod, Cwm-y-glo yn y Ganolfan Gymdeithasol.

CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

Ffiniau'r Gorffennol

AWEN MONA A LLEUAD MEDI

Pan ddaw mis Medi yn ei dro, fe ddaw ag atgofion melyn a thrist am Mrs Rees, sef Awen Mona, i mi. Bu'n 'sgrifennu ei cholofn yn Herald Môn nes cyrraedd 87 mlwydd oed. Buom felly yn cyd-deithio yn yr Herald am lawer blwyddyn. Bu farw Awen Mona ddechrau Hydref 1972. Rhoddwyd hi i orffwys ym meddrod ei phriod Dr E. Davies Rees a'i mab Iolo, ym mynwent Machynlleth ddydd Sadwrn, Hydref 7. Yr oedd yr awel yn fwyn a'r heulwen yn ymdywallt ar gynulleidfa fechan ohonom a ddaeth i'r angladd.

Dyma ran o'r erthygl olaf a sgrifennodd. Ond welodd Awen Mona mhoni wedi ei chyhoeddi, oherwydd bu farw yn sydyn yn y bore bach a hithau newydd symud o'i thŷ ym Mangor i fflat hwylus ym Mhenrhosgarnedd. Yr oeddwn wedi mynd i edrych amdani ychydig dyddiau'n gynt ac i bob ymddangosiad yr oedd mewn hwyliau gweddol dda. Ond cafwyd hi yn y bore "wedi mynd at ei gwobr". Dyma ei geiriau,

"Yn fy ngwely a chwsgei wedi troi ei gefn arnaf. Cefais gwmni "lleuad Medi" bob nos am oriau lawer. Yn wir heb edrych ar y cloc, 'roedd yn anodd dweud pa un ai golau'r lloer oedd o, ynteu'r wawr yn torri."

Ie, y lleuad naw-nos-olau honno, cyn bod sôn am weithio i reol, nac am noswyl cynnar, dim ond meistr a gwas a chymydog yn ymdrechu eu gorau glas i gael y grawn i ddiddosrwydd cyn gynted ag y byddai modd. Dyna hapus yr oedd pawb wedi llwyddo, ac yn medru syrthio i freichiau cwsg.

Wyr y darllenwyr am deimlad yr

hen faledwr gynt, tybed a ganodd:

Mi fûm yn gweini tymor
Yn ardal Ty'n y Coed,
A dyna'r lle difyrfa
Y bûm i ynddo 'rioed:
Yr adar bach yn canu
A'r dail yn duo ynghyd:
Ond torri wnaeth fy nghalon
Ar waetha'r rhain i gyd.

"Mi wn i!" meddai.

Telyneg Lleuad Medi

Yn fy marn i y mae telyneg Awen Mona siŵr o fod yn un o'r telynegion gorau a ganwyd erioed.
Ar ysgafn droed y dawnsiwr gynt:
Hyd erwau f'ynys wen:
Yr aeddfedrawn yn euro'r tir
A lleuad llawn uwchben.

'Roedd sŵn pladuriau ar y ddôl,
Ac ar y weirglodd fawr:
A'm cariad i ar flaen y rheng
Wrth dorri'r yd i lawr.

Daeth sŵn y môr i su y dail
Pan brofais gyntaf hud
Cusanau cariad ar fy min
Wrth gynaeafu'r yd.

Mae'r gaeaf bellach ar fy ngwar
Ond bodlon fi pe cawn
Un awr o'm mebyd gwyn yn ôl
A lleuad Medi'n llawn.

Awen Mona

Fel hyn y canodd Dilys Cadwaladr er cof amdani:

Dy gariad oedd dy goron - ti luniaist
Delyneg y galon:
Ar y maes bydd dagrau Môn
Ar ruddiau y Derwyddon.

Cefnaist yn heddw cyfnos - y diwedd
Diwewyr yn agos,
Ond 'roedd ef yn nef y nos
A'i wên dirion yn d'aros.

A daeth yn ôl dy lolo. - Daeth gorffwys

A daeth gorffwys wyllo:
Er y graith, fe fydd i'r gro
Lawenydd yr ailuno.

Dilys Cadwaladr

Wrth deithio ymlaen o Fangor i

Fachynlleth ddiwrnod yr angladd yr oedd golygfeydd godidog o'n cwmpas, cytunem â geiriau'r emynydd 'Llawn yw'r ddaear o'th ogoniant." Yr oedd y tywydd yn addfwyn ar hyd y daith - ni welodd yr un ohonom ddiwrnod mor hafaidd ym mis Hydref. Teimlwn fel pe bai natur yn tywallt cawodydd o heulwen ar ei harch.

MEDI

Darfu Awst a'i luestu: - y miloedd
Ymwelwyr sy'n cefnu:
'Rôl gwyliau, a'r campau cu
Daw desg, a chyfnod dysgu.

R.W. Jones

YMADAEL MEDI

Ymadael a wna Medi, daw gaeaf
Daw gwywo ac oerni:
Doniau mwyn wrth dân i mi
A'r ysbryd yn bair asbri.

Cantwy



Dyma lun arall i ddwyn atgofion i'r rhai ohonoch sy'n cofio Chwarel Dinorwig yn ystod y tridegau. Anfonwyd y llun inni trwy garedigrwydd Miss Gwen Toleman, Rhuthun. Dywed mai ei brawd Evie yw'r un ar y chwith ar yr injan, ond nid yw'n cofio pwy yw'r tri arall. Tybed oes rhai ohonoch chi yn eu hadnabod?

BARGEN

Llenwch a phostiwch y ffurflen isod er mwyn bod yn ddarllenwydd cyson o CURIAD.

Fe fyddwn yn anfon dau rifyn i chwi am ddim ar yr amod eich bod yn cytuno i dalu am y 6/12 rhifyn dilynol. Caniateir i chwi ganslo'r archeb ar unrhyw adeg cyn derbyn y trydydd rhifyn ac ni fydd arnoch unrhyw ddyled i ni.

Dychweler y ffurflen hon i:

Archeb Curiad, 13 St. John's Crescent, Treganna, Caerdydd. CF5 1NX.

D.S. Cadwn yr hawl i newid y taliadau uchod yn unol â chynnydd mewn costau.

CHWE RHIFYN: £3

DEUDDEG RHIFYN: £6

Dwi'n dymuno derbyn dau rifyn o CURIAD am ddim ac yna dwi'n dymuno talu am y 6/12 rhifyn dilynol.

ENW

CYFEIRIAD

Beth am archebu CURIAD fel anrheg i gyfaill neu berthynas?

Amgeuaf siec am y swm o ar y ddealltwriaeth y medraf dderbyn fy arian yn ôl ar unrhyw adeg cyn derbyn y trydydd rhifyn pe dymunwn ganslo'r archeb.

ARWYDDWYD



PAPUR BRO
CYMRU GYFAN

CURIAD

Y PAPURA'I FYS
AR BYLS

LLANRUG

DIOLCH - Dymuna Mrs Dorothy Williams, Meirionfa ddiolch i bawb o ardal Llanrug am eu cydymdeimlad a'u caredigrwydd â hi yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer annwyl ym Manceinion.

Dymuna Mr a Mrs Harry Roberts, 2 Tai Plastirion ddiolch i'r teulu, cymdogion a llu mawr o ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Aur ym mis Gorffennaf.

LLWYDDIANT CERDDOROL - Llongyfarchiadau i Gwyn Meirion Roberts, Gregynog ar ei lwyddiant yn arholiad canu'r piano Gradd 7 (gyda theilyngdod) dan nawdd Coleg Cerdd Brenhinol Llundain. Hefyd, ar ôl gwrandawriad, dewiswyd ef i gael gwersi piano gan Ann Rees, yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor.

PENODIAD - Llongyfarchiadau i Mr Len Williams, mab Mr a Mrs R.J. Williams (gynt o Wernlas, 3 Cawia) ar ei benodiad yn Reolwr Banc y Midland, Blaenau Ffestiniog.

DIOLCH - Dymuna Mrs J. Williams, Minallt, 14 Hafan Elan ddiolch i'w chymdogion a'i chyfeillion am y blodau, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd.

PRIODAS - Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 3, yng Nghapel Mawr, priodwyd Linda, merch Mr a Mrs Wavell Roberts, London House a Gwynfor, mab Mrs Gwyneth Jones, Ty'n 'Rardd, Waun, Penisarwaun. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts. Maent wedi ymgartrefu yn Bryn Eden, Llanrug.

Dymunwn bob hapusrwydd iddynt.



PRIODAS - Ddydd Sadwrn, Awst 7 yng Nghapel y Bryngwyn, priodwyd Miss Rhiannon James, merch Mr a Mrs Ieuan L. James, Bryn Mair gyda Mr Derwyn Roberts, mab y diweddar Mr a Mrs R.H. Roberts, Nantglyn, Llanrwst. Gweinyddwyd gan y Parch Ll. Madoc Jones a'r Parch W.O. Roberts.

Ein dymuniadau gorau iddynt am ddyfodol hapus.

Cyfarfu pwyllgor o'r Gymdeithas Undebol yn ystod mis Gorffennaf i drefnu rhaglen ar gyfer y tymor. Y swyddogion yw - Llywydd: Y Parch W.O. Roberts, Is-lywydd: Y Parch Erfyl Blainey, Trysorydd: Mrs J.C. Williams, Bod Fair, Ysgrifenyddes: Mrs E.W. Thomas, Dolwar. Cynhelir y cyfarfod cyntaf nos Fawrth, Hydref 26.

Mwynhaodd plant Ysgol Sul Eglwys Pontrhythallt eu gwibdaith flynyddol i'r Sw i Gaer ddiwedd Gorffennaf.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Gwyneth Thomas, Gwenallt ar ei phenodiad i swydd athrawes dan awdurdod addysg Llundain. Bydd yn dechrau ar ei gwaith fis Medi.

Mae amryw o drigolion Pontrhythallt wedi cael profedigaethau yn ystod y misoedd diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad â hwy oll.

GWELLHAD BUAN - i Olwen Jones, Gwên y Wawr ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon.

CAPEL MAWR - Bydd trip yr Ysgol Sul yn mynd i sw Caer a Chaer, ddydd Sadwrn, Medi 18 - y bws yn gadael am 8.30. Enwau i Mr John Wyn Owen, Llain Delyn neu Margaret Parry, Bro Dawel erbyn Medi 4 os gwelwch yn dda.

MERCHED Y WAWR - Agorir y tymor nos Fawrth Medi 14 gyda noson 'Clonc a Choffi' - cyfle i ymaelodi, mynd o amgylch y nifer stondinau, cael paned a sgwrs!

CYDYMDEIMLIR - â Mrs M. Jones, Y Wern ar farwolaeth ei thad yn y Waunfawr.

DIOLCH - Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Ann Ellen Rowlands, Cilmeri, 5 Hafan Elan, Llanrug ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad, cymorth a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli gwraig hoff a mam a nain annwyl.

Dymunant hefyd ddiolch am yr ymateb hael i'r apêl at Gronfa Ymchwil Arthritis.

MARWOLAETHAU - Trist oedd clywed am farwolaethau nifer o'r pentrefwyr yn ystod yr haf. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd hynny yn eu profedigaethau.

Mr Humphrey Lewis - Gorffennaf 6 bu farw Mr Humphrey Lewis 7 Rhos Rug. Cydymdeimlwn â'i weddw, Mrs Catherine Lewis, a'r meibion a'r merched yn eu profedigaeth.

Mrs Margaret Williams - Gorffennaf 7 bu farw Mrs Margaret Williams, Elan Wen. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'i hunig ferch Anwen a'r teulu yn eu galar.

Miss Mary Owen - Gorffennaf 19 bu farw Miss Mary Owen, 3 Tai Plastirion. Cydymdeimlwn â'i brawd, Mr O. Owen, a'i chwaer, Mrs M. Lewis, Madryn House a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Er cof annwyl am Mrs Ann Ellen Rowlands Cilmeri, Llanrug (oddi wrth Mrs Mary Lloyd Williams)

Ei challineb a'i chell lanwaith - distaw

Dystion i'w llaw berffaith, I'r nefoedd nid oedd y daith Ond y gam a'i dug ymaith.

Chwaer dyner o ochr daioni - oedd hon

Garodd hedd a thlydni Gwenau teg ei henaidd hi Addurnodd oes ddiwyrni.

Glan Rhyddallt

Cofio'r ddiweddar Mrs Anne Rowlands (Nan), Cilmeri, Hafan Elan, Llanrug

Tristwch i lu o drigolion Llanrug a Chwm-y-glo a llawer eraill oedd clywed am farwolaeth y foneddiges siriol hon brynhawn Gwener, Gorffennaf 9. Er bod ei theulu a'i chyfeillion yn sylweddoli ei bod yn dioddef o afiechyd blin ers llawer blwyddyn, yr oedd y diwedd yn annisgwyl iawn gan fod pawb gafodd y fraind o'i hadnabod yn gafael yn dynn ynddi i'r diwedd, ac yn amharod iawn i'w gollwng.

Un o blant Ynys Môn ydoedd. Fe'i ganed ym Mynydd Bodafon, yn ferch i William Lewis a Jane Elisabeth Williams. Pan oedd yn ieuanc symudodd y teulu i ardal y Clegir, Llanberis, lle treuliodd flynyddoedd ei hieuenctid. Ym 1938 ymbriododd â Mr Alun Rowlands o Gwm-y-glo yng Nghapel Preswylfa, Llanberis. Bu'r briodas yn hynod o hapus ar hyd y blynyddoedd. Ganwyd iddynt ddau o blant, Mair ac Wyn, a buont yn ddarbarbed yn eu ffyddlondeb i'w mam i'r diwedd.

Gwraig dawel, siriol a charedig ydoedd Mrs Rowlands, yn uchel ei pharch gan bawb a gawsant y fraind o'i hadnabod. Yr oedd yn dra ddiwylliedigwedi darllen yn eang, ac yn drwm dan ddylanwad yr Ysgol Sul a'r Dosbarthiadau WEA a gynhelid yn yr ardal. Yr oedd hefyd yn fedrus mewn gwaith llaw, fel y dengys enghreifftiau o'i gwaith yn ei chartref.

Un o'r atgofion cliraf sydd gennym amdani ydyw'r atgof o'i dewrder di-ildio yn wyneb afiechyd. Brwydrodd am dros ugain mlynedd yn ddygn yn erbyn y gelyn creulon a'i goddiweddodd yn siriol a dirwgnach. Er ei holl gystudd daliodd yn obeithiol a hynod ddiolchgar am bopeth i'r diwedd. Yr oedd ymweled â hi bob amser yn foddion gras i'r rhai a gawsant y fraind o wneud hynny. Yr oedd hefyd yn wraig a feddai grefydd iach a diragrith. Gwyddai yn iawn at

Bwy i droi yn ei hangen, a chafodd Ef yn ddigon ar gyfer pob gofyn. Ei hymddiriedaeth tawel yn Nuw a'i ffydd syml mewn gweddi oedd cyfrinach ei sirioldeb a'i thawelwch dan bob amgylchiad.

Bu ei harwyl ym Mynwent y Plwy, Llanrug ddydd Mercher Gorffennaf 14. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog y Parch W.O. Roberts, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Aled Jones Williams (Rheithor Llanrug, a'r cyn-Reithor y Parch D. Gwynfor Williams. Cydymdeimlir yn ddwys, iawn a Mr Alun Rowlands a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr.

W.O.R.

Eisteddfod Llanrug - mae'r testunau ar werth yn rhai o'r siopau lleol.

DEISEB YNGLŶN Â'R DRETH



Mr R.T. Pritchard, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug yn cyflwyno deiseb a gasglwyd yn y pentref ynglŷn â threthi dŵr.

LLYFRAU

Bro a Bywyd Syr Cynan Evan-Jones

Hon yw'r bedwaredd gyfrol yn y gyfres; eisoes cyhoeddwyd **Bro a Bywyd Syr T.H. Parry Williams, Kate Roberts a Gwennallt**. Ceisir cyflwyno llenor a'i fro, a chyn belled ag y mae modd, ei gyfnod hefyd.

Trwy garedigrwydd teuluoedd y llenorion llwyddwyd i fenthgylu lluo o ffotograffau ac maent hwy, ynghyd â'r dyfyniadau pwrpasol, yn rhoi darlun byw a phersonol iawn o'r gwrthrych. Mae Cynan yn arbennig o addas i'r driniaeth hon gan iddo fod yn ŵr eang ei ddiddordebau ac yn ffigur amlwg ym mywyd cyhoeddus Cymru. Golygydd y gyfrol yw Ifor Rees. Cyhoeddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. **Pris: £2.50.**

DRAENOG




Mae Draenog fel pawb arall wedi bod ar ei wyliau - ond fe fydd yn ôl erbyn y tro nesa'.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWRYR LLEOL

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

Dosbarth Coginio — o'r deuddegau



Diolch i Miss Gwen Toleman o Ruthun am anfon hwn inni. Llun ydyw o ddosbarth Coginio yn Ysgol Dolbadarn tua 58 o flynyddoedd yn ôl. Mae Miss Toleman yn enwi wyth ohonynt gan gynnwys yr athrawes. Dyma nhw o'r chwith i'r dde: Mary Pritchard, Mary Catherine, Lizzie Morris, Lilian, Susie Parry, Gwen Toleman, Janet Thomas a Miss Williams yr athrawes. Tybed p'run sydd heb ei henwi?

BEICWYR MEDRUS



Plant Ysgol Gynradd Llanrug a fu'n llwyddiannus yn eu prawf reidio beic — yn dangos eu tystysgrifau. Gyda hwy mae eu hathro, Mr Idriswyn Roberts.



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:
LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

O BANTRI BETH

Mae'r cynhaeaf wedi'n cyrraedd, yn yr ardd, y berllan a'r perthi. Dyma dymor prysur i ni'r menywod, yn rhewi a chadw llysiau a ffrwythau o bob math. Mae llawer o bobl yn chwysu dros stôf yn gwneud siytni ond mae gen i riset hawdd iawn fel y gwelwch.

SIYTNI TOMATO

1½ pwys o domatos gwyrdd

1 pwys o fale

1½ pwys o wynwns (nionod)

1½ pwys o siwgr brown

1½ pwys o finegr

1 owns o sinsir

½ llond llwy de o turmeric

1 llond llwy fwrdd o halen

3 llond llwy fwrdd o gan corn
papur

Rhowch y tomatos, fale a'r wynwns drwy falwr. Ychwanegwch 1 peint o'r finegr a'r siwgr a berwi am bum munud.

Cymysgwch y cynhwysion eraill sych gyda gweddill y finegr. Ychwanegwch at y cymysgedd yn y sosban a'i ferwi am ddwy funud arall. Potelwch y siytni.

Mae llawer o bobl yn tyfu pwmpen

yn yr ardd ond yn cael mwy na mae'n bosibl i'w fwyta. Rwyf yn ddyledus i Mair Huws, Cilmeri am y riset yma i ddefnyddio'r bwmpen. Mi fwytes i ei hanner efo tatws a thomatos mewn popty ac rwyf wedi rhewi'r hanner arall.

PWMPEN WEDI EI STWFFIO

1 Pwmpen canolig ei maint

Stwffin

2 owns o fadarch wedi eu torri'n fân

1 wynwynsyn wedi ei dorri'n fân

1½ owns o friwsion bara

8 owns o friwig

1 ŵy wedi ei guro

halen, pupur a phinsiad o llysiau
cymysg

2 owns caws wedi ei ratio

Torrwch y pwmpen yn ei hanner ar ei hyd. Tynnwch yr hadau a'i ferwi nes yn dyner. Gofalwch nad ydych yn ei or-ferwi. Rhowch mewn desgl hir-grwn.

Ffriwch y wynwns a'r madarch mewn ychydig o fenyn. Rhowch mewn powlen. Ffriwch y briwig nes ei fod yn frown a'i ychwanegu at y wynwyns a'r madarch gyda'r briwsion, halen, pupur, y llysiau a'r ŵy a'u cymysgu'n dda.

Llenwch y bwmpen â'r cymysgedd, gan rhoi'r caws ar y top a'i goginio mewn popty (Nwy 4) am 30 munud.

HEN GAPEL BACH Y GLEGIR

Yng nghyfrafod dathlu canmlwyddiant Capel Preswylfa (cyn ei gau) cyfeiriodd Hugh R. Jones, un o'r blaenoriaid wrth iddo roddi hanes yr achos, ar Gapel Bach y Clegir a chysylltiad y capel â Phreswylfa yn y blynyddoedd a fu. Codai'r hyn rhyw awydd ynof i chwilio i hanes yr hen gapel bach.

Ymysg llawer o bethau y daeth eu defnyddioldeb a'u gwasanaeth i ben yn sgîl y rhyfel ddiwethaf, y capel bach oedd un ohonynt. Roedd yn chwith gan drigolion y cylch ddeall fod yr hen gapel ar werth. Ni ellid cadw'r capel yn agored oblegid fe symudodd crynswth trigolion yr ardal anhygyrch i dai newydd y cyngor ac ymaelodi mewn capeli eraill agosach iddynt. "Man y clogwyni yw'r Clegir," meddai Ap Glaslyn gynt, a heddiw y mae'n rhyfedd meddwl i eglwys mor rymus ag ydoedd flodeuo mewn lle mor ddiarffordd. Ym mlynnyddoedd cynnar eglwys y Clegir ni allai na gallt na'r hin garwaf atal yr hen chwarelwyr duwiol rhag dod ynghyd fin nos i addoli yn eu capel bach. O barch iddynt hwy y llafurwyr diwyd carwn daflu trem yn ôl ar hanes acos y bu cymaint llwyddiant arno.

Yn y flwyddyn 1824 y dechreuwyd cynnal gwasanaeth crefyddol yn Y Clegir, ac ym Mrynclyd y cynhaliwyd y cyfarfodydd, ac fel y gwyddom mae Brynclyd ar ei draed o hyd. Ymgynnnull yn y gegin yno a wnai'r tyddynwyr gyda W.O. Michael, y Llwyncoed yn arolygwr arnynt. Dafydd Siôn Owen a'i briod, Siân Dafydd drigai yno.

Ar ôl diwygiad Beddgelert aeth y tŷ yn rhy fychan i ddal y saint a gorfu iddynt symud i Allt-y-Celyn, bwthyn gwyngalchog ar y llechwedd o dan Cefn Du. Gellir gweld y bwthyn yma o ffordd fawr Llanberis. Yno, y cynhaliwyd y cyfarfodydd hyd Awst 1836. Y pryd hynny rhoddodd yr yswain Hugh Rowlands, Plastirion, Llanrug, ganiatâd iddynt adeiladu ysgol at eu gwasanaeth, a hefyd lain o dir cysylltiedig am 26 (o'r hen arian) am y flwyddyn.

Ym 1860 ffurfiwyd eglwys a dewiswyd yn flaenoriaid William Trefor, Hafoty a John Moses Williams, Bwlchygroes. Saith mlynedd yn ddiweddarach cysylltiwyd yr eglwys ag eglwys newydd Gorffwysfa yng Nghoedyddol (yr enw gynt ar bentref Llanberis). Daeth yr eglwys dan fugeiliaeth y Parch Jecwyn Parry, a newidiwyd enw'r adeilad o fod yn ysgoldy i Gapel y Clegir. Ym 1888 datgysylltwyd y Clegir a Gorffwysfa a'i chysylltu ag eglwys newydd Preswylfa a daeth dan fugeiliaeth y Parch R.W. Hughes yr hwn a

olynwyd gan y Parch R.O. Hughes.

Ysgrifennodd Ap Glaslyn lawer am rai o'r cymeriadau hynod a berthynai i Gapel y Clegir. Un ohonynt oedd Siân Dafydd, a dyma sut yr ysgrifennodd amdani — "Gan mai un bregeth a geid y pryd hynny yn y Capel Coch ni ellid cael un arall heb lawer iawn o lafur ac ymroddiad, byddai raid mynd i'r Fachwen neu Lanrug neu Waenfawr. Felly i Gapel Coch, a'r Fachwen, Llanrug a'r Waenfawr y teithiai Siân Dafydd er garwed y tywydd, haf a gaeaf, am flynyddoedd lawer.

Roedd wedi trysori Efengyl Ioan mor llwyr i'w chof, mor fyw i'r phrofiad ac mor ddwyfol i'w hysbryd fel nad gwiw gennym ei hystyried yn ddim amgen nag esboniad byw, symudol, golau a thanllyd ar yr Efengyl honno."

Dyna'r fath gymeriadau a gynhyrchwyd yng Nghapel Bach y Clegir. Un o ffyddloniaid pennaf yr Eglwys oedd y diweddar Hugh Owen a roes ei flynyddoedd gorau i'r achos. Mynych y talodd i bregethwr o'i boced ei hun heb ynganu gair wrth neb.

I gapeli bach fel Capel y Clegir y mae Cymru'n ddyledus heddiw am lawer o'n gwŷr pennaf, ac mae cau'r capeli bach diarffordd — lleoedd y glynodd effaith y cyffroadau mawr yn hwy nag yn unman arall, — ac wedi bod yn ergyd i ddiwylliant a thraddodiadau gorau Cymru.

PENISARWAUN

BABANOD NEWYDD - Llongyfarchiadau gwresog i'r rhieni hapus sydd wedi cael babanod yn ddiweddar a chroeso i'r plantos bach:

I'r Parch a Mrs Aled Edwards, Y Ficerdy ar enedigaeth merch fach, Siân Meleri. Bydd Simon Dewi wrth ei fodd efo'i chwaer fach newydd.

I Mr a Mrs Islwyn Williams, Cae'r Bleddyn ar enedigaeth merch fach, Wena.

I Mr a Mrs Cai Larsen ar enedigaeth merch fach, Llinos Haf, a llongyfarchiadau hefyd i daid a nain Llygad yr Haul.

Da deall hefyd fod Mr a Mrs Peter Williams, Llwyn Derw wedi cael wyres arall.

EGLWYS Y SANTES HELEN - Llongyfarchwn y Ficer a Mrs Edwards ar enedigaeth Siân Meleri. Dymunwn yn ddai David Williams, 23 Bryntirion ar ei briodas â Rosemary o Gaernarfon. Bydd y ddau'n cartrefu yng Nghaernarfon, ac maent yn diolch i bawb am y rhoddion a dderbyniasant. Llongyfarchiadau i Gwenda ac Alan ar eu priodas yn Eglwys y Santes Helen, ddydd Sadwrn, Gorffennaf 3. Ar yr un diwrnod priodwyd Gwynfor a Linda yn y Capel Mawr, Llanrug. Ein dymuniadau gorau iddyn nhw i gyd.

Mae'n dda gennym weld Siân Lewis, Pen Pwll Coch; Janice Williams, 23 Bryntirion; Mrs Maria Jones a Miss Mair Foulkes yn gwella ac adref o'r ysbyty.

Roedd Mr a Mrs John Pritchard, Pensarn yn dathlu 55 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r ddau. Dymunwn yn dda hefyd i Alf, eu mab, sydd yn yr ysbyty yng Ngobowen.

Fe garai swyddogion Ysgol Sul Bosra a'r Wesleiaid ac Eglwys Santes Helen ddiolch unwaith eto i Mr Hodgkinson, Pant Afon am ei garedigrwydd tuag atynt pan aethant ar dâith i'r Rhyl. Diolch hefyd i Mr J. Morris, Tŷ Capel a Mrs A. Peterson am drefnu'r bysiau.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs A. Porter, Llys y Gwynt ar dathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar.

CLWB Y MERCHED - Aeth aelodau'r Clwb i Landudno ar eu gwibdaith flynyddol, gan dreulio orig gyda'r hwyr yn Theatr yr Arcadia. Cafwyd diwrnod arbennig o braf. Bydd y clwb yn ailgyfarfod Medi 28.

DYMUNIADAU GORAU - i Miss Anwen Jones, Meillnydd a Miss Bronwen Hughes, 1 Bryn Hyfryd. Bydd y ddwy yn dechrau mewn swyddi fel athrawon ddechrau'r tymor newydd, Anwen yn Ysgol yr Hendre, Caernarfon a Branwen ym Mae Colwyn.

Pob lwc hefyd i Eurgain Roberts, 10 Bryntirion sydd wedi dechrau gweithio mewn swyddfa, ac Eleri, Tan y Gaer a lwyddodd yn ei harholiadau SRN.

LLONGYFARCHIADAU - i Ian Jones, Hendre Newydd ar ennill rhagor o fedalau efo'r nofio.

LLONGYFARCHWN hefyd Arwel Williams, Carrog sydd wedi cyrraedd ei ddeunaw oed.

CASGLWYD £18.21 tuag at y Badau Achub. Diolch i'r casglwyr Mrs Mathews a Mrs Pat Jones am eu gwaith caled.

DAMWAIN - Cafodd Mrs Gwyneth Jones, Ty'n Radd, Waun ddamwain tra ar ei gwyliau yn Teneriffe. Gobeithiwn ei bod yn gwella.

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs Haydn Lewis, Pen Pwll Coch ddiolch i bawb am bob caredigrwydd tuag at Siôntra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Dymuna Arwel Williams, Carrog ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ato ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Mr a Mrs R. Jones, Heather Bank ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am eu cardiau a'u dymuniadau da ar achlysur eu Priodas Aria.

CLWB YR HEULWEN - Bydd y Clwb yn ailagor ddydd Mawrth, Medi 20 ar ôl gwyliau. Y gŵr gwadd fydd Mr John R. Roberts, o Gyngor yr Henoed. Croeso i bawb.

DYMUNIADAU DA i Marian Jones, Cae Corniog Mawr sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CERDDED ER BUDD YR EGLWYS

- Yng nghanol dyddiau gwlawog iawn ddiwedd Awst, yr oedd yn fendith cael diwrnod o haul braf ddydd Mercher y 25ain ar gyfer taith gerdded nodedig a drefnwyd er budd Cronfa Gyffredinol Eglwys St. Helen.

Cychwynnodd tua dwsin o gerddwyr o Neuadd yr Eglwys am ddau o'r gloch y prynhawn ar hyd rhai o ffyrdd a llwybrau cyhoeddus cylch Penisarwaun am bellter o bum milltir.

I gofnodi'r achlysur, tynnodd Mr O.C. Roberts lun y cerddwyr pan oeddynt ar gychwyn. Dylid diolch iddo hefyd am gasglu £70 gan

noddwyr yn yr ardal. Cafwyd cymorth Mrs J. Turner a Mrs H. Kelly yn ystod y daith i ofalu am y plant ifanc iawn o blith y criw, a da oedd gweld Mr John Pritchard, Pensarn hefyd yn cynorthwyo trwy stiwardio ger ei gartref.

Dymuna'r trefnydd ddiolch i bawb a fu mor garedig yn noddi'r cerddwyr i gyd ac i'r canlynol am gerdded: Berwyn ac Andrea Peterson a'u nain Mrs Mary Davies, Sioned a Nia Lewis a'u mam Mrs Elen Lewis, Lawrence Turner, Karen Jones, Meirwen Williams, Carolyn a Marie Griffith a'r Parch Aled Edwards. Casglwyd dros £100 tuag at yr achos.

YSGOL TAN Y COED, PENISARWAUN 1956



Diolch i Mr a Mrs Jackie Owen, (Stabla gynt) sydd yn byw yn awr yn Potters Bar am y ddau lun o'r dyddiau a fu yn Ysgol Tan-y-coed, Penisarwaun. Yn y llun uchod gwelir Gweneth Mair Williams a Margaret Owen yn gwneud te.



Yn yr ail lun mae dosbarth Miss A.M. Williams o'r flwyddyn 1956.

LLONGYFARCHIADAU - i Miss Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir ar ei gwaith yn Arholiadau Lefel 'A'. Bwriada fynd am astudiaeth bellach i

goleg Llandaf. Pob llwyddiant i'r dyfodol iddi. Ein cofion at bawb sy'n cwyno'r dyddiau hyn.

DINORWIG

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG - Sadwrn Gorffennaf 3 eleni aeth aelodau'r gymdeithas am wibdaith i'r Rhyl, Llanelwy, Rhuthun, Llangollen, Drws Oeddwr, Llanberis a Dinorwig. Cafwyd diwrnod da a dymunol. Talwyd diolch gan y llywydd Mr R.H. Williams, Tŷ Capel, i'r Ysgrifennydd, Mr David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis a Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir ac i'r dreifar, Mr Owen Jones, Deiniolen Motors am drefnu'r trip. Chwith deall fod Owie fel yr adnabyddid ef wedi marw'n sydyn erbyn hyn. Cydymdeimlir â'i weddw, Mrs Margaret Jones a'r plant, a'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth annisgwyl.

O'R YSBYTY - Da deall fod Mrs Mary Jones, Craig Bella, Fachwen wedi gwella ar ôl triniaeth feddygol yn ddiweddar yn Ysbyty Eryri.

Hefyd cafodd Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd driniaeth lawfeddygol yn ysbytai Bangor ac Eryri ar ôl damwain i'w chlun yn y cartref. Ein cofion ati a da deall ei bod yn gwella.

Cafodd Miss Salome Jones, 6 Bro Elidir ddamwain i'w braich tra'n dilyn ei gorchwyl tua'r cartref.

Cydymdeimlir â hi yn ei hanffawd.

Bu Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir am driniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl. Dymunir adferiad buan a llwyr iddi.

LLONGYFARCHIADAU - i Mr a Mrs Renell Williams, Tanyfron ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bychan - Christopher - i Mr a Mrs Selwyn Allsup, Stryd Ceunant, Llanberis. Mae Rita, ei fam, yn ferch i Mr a Mrs Williams.

Hefyd i Miss Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir ar gyrraedd ohoni ei 18 mlwydd oed Gorffennaf 29. Pob lwc i'r dyfodol.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd ddiolch o galon i'r teulu, ei chyfeillion a'r ardalwyr am y caredigrwydd a ddangoswyd iddi tra bu'n cael triniaeth lawfeddygol yn ysbytai Môn ac Arfon a'r Eryri, ac wedi dod gartref. Diolch hefyd i'r meddyg lleol, meddygon yr ysbytai a'r staff am eu gofal.

Dymuna Miss Meira Foulkes, Dublin House sy'n parhau yn Ysbyty Eryri dan driniaeth, ddiolch o galon am bob caredigrwydd a ddangosir iddi trwy ymweliadau â hi yn yr ysbyty gan ardalwyr Dinorwig. Anfonir ein cofion ati.

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS


Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

BRYNREFAIL

LLONGYFARCHIADAU – i Tecwyn Williams, mab Mr a Mrs Wilbert Williams, Marino ar ennill ei ddiploma mewn pensaerniaeth yng ngholeg Polytechneg, Lerpwl.

Deallwn ei fod wedi ymuno â chwmni o benseiri yng Nghaer, a dymunwn yn dda iddo yn y dyfodol.



LLONGYFARCHIADAU – i Mrs Ellen Hughes, Bron Afon ar gyrraedd ei 90 mlwydd oed ar ddiwedd mis Awst. Manteisiwn hefyd ar y cyfle o gydymdeimlo gyda Mrs Hughes a'r teulu oll, yn eu profedigaeth o golli chwaer yn Neiniolen yn ystod yr wythnosau diwethaf.

URDDO – Yn yr Eisteddfod Genedlaethol anrhydeddwyd Miss Alice E. Williams (gynt o Tremallt), trwy ei hurddo yn Aelod o Orsedd y Beirdd. Derbyniodd yr anrhydedd am ei gwasanaeth i Ddawnsio Gwerin, a deallwn ei bod wedi dewis yr enw 'Alys Brynrefail'. Fel pentref ac ardal, ymfalchïwn yn ei dawn a'i hanrhydedd a dymunwn yn dda iddi at y dyfodol.

HELO, HELO – mwy o lyfrau a'r Lolfa?

Cymru'r Camera
gol. Marian Delyth. Lluniau gorau ffotograffwyr Cymru. Clawr caled. £4.95

CANT O GANEUON DAFYDD IWAN
Casgliad cyflawn ein prif ddiddanwr. £1.95

MAGNIFIKONT
Cerddi mwyaf amhrintiadwy Derec Tomos. £1.45

DU A GWYN
Cerddi cyfoes o Lydaw. Golygwyd gan Mikael Madeg a Dewi Morris Jones. £2.95

CAILO-2 DAFYDD PARRI
Helyntion pellach y ci defaid enwog. £1.55

DAN LEUAD LLŶN PENRI JONES
Nofel gyfoes am bobl ifainc i bobl ifainc. £2.45

CROES LLYWELYN
Postyr coffa 4-lliw trawiadol Tegwyn Jones. £1.20

...A RHIFYN DIWEDDARAF Y RHECSYN ERCHYLL Awst '82, 50c

LOL

Catalog llawn 32-tudalen ar gael yn rhad o'r LOLFA, TALYBONT, CEREDIGION SY24 5HE: ffôn (097086) 304.

Y Lolfa

Awst 21 cynhaliwyd y cystadlaethau blynyddol ar wisg ffansi, mabolgampau a gemau giamocs. Dyma ganlyniadau'r wisg ffansi:

Dan 4 oed: 1. Esyllt Jones. **Dan 7:** 1. Marian Jones, 2. Nicola Houston, 3. Paul Jones a Martin Owen. **Dan 11:** 1. Dewi Evans, 2. Kelvin Houston a Sally Ellis, 3. Llŷr Jones a Tudur Roberts. **Dan 16:** 1. Meinir Jones a Richard Ellis, 2. Alwen Jones. **Dros 16:** 1. Shirley Roberts, 2. Janet Jones. **Pâr:** 1. Meinir a Marian Jones, 2. Carol Houston a Glenys Jones, 3. (cyfartal) Llinos Roberts a Monica McCafferty; Rhian Jones a Sharon Owen. **Y Wisg Orau:** Sally Ellis. **Addurno Pram:** Alwen Jones. **Addurno Het:** Richard Ellis.

Yn y gemau giamocs tîm Carl Hasson a fu'n fuddugol, gyda thîm Carol Houston yn ail a thîm Shirley Roberts yn drydydd.

Yn y ras fawr, Jackie Wager oedd y gyntaf o'r merched, a Carl Hasson y cyntaf o'r bechgyn. Cyflwynwyd y tlysau iddynt gan Mr a Mrs Jones, sydd gartref o Seland Newydd, yn aros gyda'u teulu yn y pentref.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyd mis Mehefin a Gorffennaf: Mehefin – 4ydd: 1. Mrs Mowll, 2. Emyr Jones, 3. Jackie Jones. 11ed: 1. Liz Thomas, 2. Eurywyn Williams, 3. Mr Mowll. 18ed: 1. Arthur Jones, 2. Jill Siop Ganol, 3. Gwilym Jones. 25ain: 1. Helen Jones, 2. Gary Williams, 3. Eirlys Williams. Gorffennaf – 2il: 1. Margaret Jones, 2. Islwyn Jones, 3. Geraint Roberts. 9ed: 1. Moira Ellis, 2. Sylvia Williams, 3. Bertie Roberts. 16: 1. Alwyn Cae'r Bythod, 2. Dafydd Ellis, 3. Seth Thomas. 23: 1. Pat Mowll, 2. Carl Hasson; 3. Rhian Jones. 30: 1. Elwyn Sir Fôn, 2. Gary Williams, 3. Liz Thomas.

CAU'R YSGOL FACH – Gorffennaf 9, daeth cynulleidfawr i Ffestri'r Capel i ddatlu achlysur trist iawn, sef cau'r ysgol fach. Cafwyd anerchiad gan y Cynghorydd Mrs Pat Larsen, gyda chân o ddiolch gan blant y pentref – y penillion wedi eu cyfansoddi'n arbennig gan Miss Lowri Prys Roberts.

Cyflwynwyd anrhegion i Mrs Maureen Lennon, Mrs Pat Jones a Mrs Megan Jones. Rhoddwyd 'Beibl y Plant' a geiriadur i'r plant i gofio am yr ysgol fach.

Ar ddiwedd cyfarfod trist ac emosiynol, adroddwyd y penillion isod o'i gwaith ei hun gan y brifathrawes, Mrs Maureen Lennon.

Fe ddylem ddiolch hefyd i Mrs Lennon am y sylwadau a wnaeth o hanes yr ysgol fach ar gyfer yr 'Eco'.

DIOLCH – Dymuna Mrs Maureen Lennon a staff ysgol fach Brynrefail ddiolch i ardalwyr a phlant y pentref am drefnu'r cyfarfod ar achlysur cau'r ysgol Gorffennaf 9, 1982. Diolch i'r plant am gymryd rhan, i'r rhai fu'n eu hyfforddi ac am yr anrhegion a dderbyniwyd.

CAU YSGOL FACH BRYNREFAIL

GORFFENNAF 9, 1982

Wedi saith deg pedwar blwyddyn Daeth yn amser cloi y drws Ac ni ddaw, ar ôl y gwyliau At y ddesg, 'run plentyn tlws.

Fe addysgwyd rhwng ei muriau Dros dri chant o blant y fro Ond ym mhentref bach Brynrefail Mwyach bydd y drws ar glo.

Distaw fydd y buarth chwarae, A'r hen gloch ni chana mwy, Ni cheir yma chwerthin plantos Chwith i bawb eu colli hwy.

Deunaw mlynedd hapus dreuliais Ym Mrynrefail gyda chwi, Ac atgofion melys gariaf Yn fy nghalon coeliwch fi.

Diolch am eich cydweithrediad Dros yr holl flynyddoedd maith, Bu eich cymorth a'ch hynawsedd 'N help i minnau wneud fy ngwaith.

Symud fyddwn ym mis Medi Draw i bentref Cwm-y-glo ond deil pentref bach Brynrefail Fyth yn annwyl yn fy nghof.

YSGOL BABANOD BRYNREFAIL – Agorwyd yr ysgol 74 mlynedd yn ôl yn y flwyddyn 1908 pryd y derbyniwyd 29 o blant i'r ysgol Mawrth 23, 1908. Yn ôl y llun yr oedd tair athrawes yn yr ysgol. Mae'n bur debyg fod y plant yn ymadael o'r ysgol yn wyth oed. Yr enw cyntaf yn y llyfr derbyn yw Owen Morris Ellis, Penrallt. Dyddiad geni 23.7.02. Yn ystod y flwyddyn aeth y rhif i fyny i 38.

518 o blant wedi dechrau eu gyrfa yn yr ysgol fach. Yr enw olaf ar y rhestr dderbyn yw: Tony Roberts, Gerand. Dyddiad geni: 6.4.79. Derbyniwyd i'r ysgol 19.4.82 (rhan amser).

Anfonwyd dau 'log book' i Gaernarfon Medi 5, 1950: 1908 - 1938; 1938 - 1948.

29 Gorff. 1949: Ymdeolodd Miss E. Ffoulkes (Glanffrwd) ar ôl tymor o 15 mlynedd fel prifathrawes.

Medi 6, 1949: Dechreuodd Mrs Mary Parry, Ty'n

Twll ei gyrfa yn yr ysgol. Bu yno hyd Gorff. 31 1963 (14 mlynedd).

Medi 10, 1963: Mrs K. Walter Jones (prifathrawes dros dro).

Ionawr 7, 1964: Mrs Stanley Jones (prifathrawes dros dro).

Gorff. 13, 1964: Dechreuodd Mrs Maureen Lennon ei gyrfa yn yr ysgol am gyfnod o 18 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn derbyniodd 105 o blant i'r ysgol.

Bu sôn lawer tro am gau'r ysgol fach Mai 11 1955. Galwodd Mr Gwilym J. Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg yn yr ysgol i drafod dyfodol yr ysgol. Yr adeg honno yr oedd 22 o blant ar y llyfrau.

Yn y flwyddyn 1966 cafwyd rhybudd i gau ond anfonwyd gwrthwynebiad i Gaerdydd ac enillwyd y frwydr am y tro.

Gorff. 12, 1958: Dathlwyd hanner can mlwyddiant yr ysgol pryd y daeth cyn-ddisgyblion, athrawon a rheolwyr ynghyd. Ysgrifennwyd englynion i ddatlu'r achlysur gan Dilys Cadwaladr (bardd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru) a ddechreuodd ei gyrfa yn yr ysgol fach.

Fis Medi 1981 derbyniwyd rhybudd i gau eto – ofer fu'r frwydr i'w chadw'n agored y tro hwn gan mai dim ond 6 o blant (llawn amser) ac un (rhan amser) sydd ar lyfrau'r ysgol yn awr.

Penderfynwyd symud y plant i Ysgol Gynradd Cwm-y-glo ddechrau'r tymor nesaf.

Gorff. 9, 1982: Caewyd drysau'r ysgol fach am y tro olaf.

Yn y Gegin: Mrs Ffoulkes, Mrs Eirianwen Evans, Mrs Mair Williams, Mrs Margaret Williams, Mrs Elinor Williams. **Gofalwyr:** Mrs Malan Williams, Mrs Jennie Williams, Mrs Megan Jones. **Apwyntiwyd** Mrs Pat Jones fel gweinyddes feithrin ddeng mlynedd yn ôl.



Y Cynghorydd Mrs Pat Larsen yn cyflwyno anrhegion i'r Brifathrawes a staff yr ysgol fach ym Mrynrefail.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)

YSGOL FACH BRYNREFAIL – DDOE (1908)



Disgyblion cyntaf yr ysgol yn 1908 gyda'r ddiweddar Dilys Cadwaladr yr ail o'r chwith yn y rhes gefn.

A HEDDIW (1982)



Y disgyblion a'r staff olaf yn hanes yr Ysgol Fach. Ein diolch i'r brifathrawes am gael defnyddio'r lluniau.

BETHEL

DIOLCH – Dymuna Mrs Sheila Roberts, Tan y Buarth ddiolch yn fawr iawn i'r Dawnsywyr Morris am y blodau a dderbyniodd yn ystod y Carnifal.

LLONGYFARCHIADAU – i Hari, mab hynaf Mrs Lydia Hughes, Corra Linn am dderbyn medal am wasanaeth cyson gyda Brigad Dân Clwyd ac i Gwyn, mab ieuengaf Mrs Hughes (gynt o Snowdonia, Ystad y Rhos) am gael ei benodi'n Ddarlithydd yng Ngholeg Technegol Bangor. Fe fydd Gwyn yn cychwyn ei yrfa newydd Medi 1.

DAWSWYR MORRIS – Yn ystod yr haf mae genethod y Dawnsywyr Morris wedi bod yn brysur ac yn llwyddiannus iawn.

Ym mis Mehefin yng Nghaernarfon, fe enillodd y trŵp coch darian am ddod yn ail mewn arddangosfa, ac fe gafodd y trŵp gwyrdd darian am mai hwy oedd yr unig rai 'Dinkie' oedd yn cystadlu.

Aeth y ddau grŵp i Garnifal Rhosgadfan Mehefin 19. Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 17 buont yng Ngharnifal Llanberis yn y prynhawn. Daeth y trŵp coch yn gyntaf a'r trŵp gwyrdd yn drydydd gyda'r nos yr un diwrnod yr oeddynt yng Nghaernarfon lle bu'r trŵp coch yn llwyddiannus eto, sef 1af ar yr orymdaith ac Angharad Price, sy'n arwain y trŵp yn cael y cyntaf am fod yr arweinydd gorau.

Gorffennaf 31 aethant i Garnifal Llaingoch. Daeth y trŵp coch yn ail am arddangosfa ac fe dderbyniodd Manon Elis, arweinydd y trŵp gwyrdd fedal ar ran y genethod am mai hwy oedd yr unig 'Dinkies' eto.

Ddydd Sadwrn, Awst 14 fe fuont yng Ngharnifal Dyffryn Nantlle, Penygroes. Daeth y trŵp coch yn ail ac fe gafodd Carys Owen fedal am fod yr arweinydd gorau (yr oedd Carys yn arwain y trŵp coch oherwydd damwain Angharad Price). Fe dderbyniodd Manon fedal hefyd ar ran y trŵp gwyrdd.

I orffen y tymor, bydd y trŵp coch yn cystadlu yn Biwmares ac yna bydd y genethod y cael eu noson allan yn y Ganolfan Hamdden Caernarfon.

Maent i'w llongyfarch am eu gwaith caled ar hyd y tymor. Mae'r holl fedalau, tarianau, etc. i'w gweld yn Ystofa Treflyn (trwy ganiatâd caredig Mr a Mrs W. Guy).

Cynhaliwyd prynhawn coffi yn y Neuadd pnawn Gwener Awst 13. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac am bob cyfraniad unigol a dderbyniwyd.

Enillwyd y raffl oedd: Nwyddau (rhoddedig an Mrs Lynwen Morris); Mrs M. Hughes, 27 Bro Rhos. Plât

(rhoddedig gan Mrs Nan Owen): Siân Emlyn Hughes, Tan y Ffordd. Plât addurn (rhoddedig gan Mrs Gwenda Jones): Eirlys Jones, Tyddyn Oer. Am ddyfalu faint o bŷs oedd mewn potel, yr enillydd oedd Mrs M.G. Williams, Gwylfa.

CLWB BRO BETHEL – Bwriada'r clwb gael taith o amgylch Sir Fôn, ymweld â farchnad Llangefni ddydd Iau Medi 9 a chael pryd o fwyd yng ngwesty Glyn Llifon, Marian Glas.

Croeso i rai eraill ymuno â ni – cychwynnir tua chwarter i hanner dydd. Cysyllter â'r ysgrifennydd M.G. Williams, Gwylfa.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Bethel pnawn Mawrth, Hydref 12, 1982.

EISTEDDFOD BETHEL A'R CYLCH – Cynhelir yr eisteddfod pnawn a nos Sadwrn, Tachwedd 6, 1982, a chynhelir cystadlaethau coginio nos Iau, Tachwedd 4. Y beirniad fydd – Adrodd a Llên: Mr John Hywyn, Llandwrog; Cerdd: Mr Cledwyn Jones, Bangor; Arlunio: Mr E. Roberts, Penygroes; Gwnio a Choginio: Mrs E. Moses, Caergeiliog; Gwaith Llaw: Mr D. Evans, Penisarwaun.

Mae'r testunau wedi dod i law, ac os nad ydych wedi cael copi maent ar gael gan yr Ysgrifenyddes. Bydd un gystadleuaeth ychwanegol sef Deuawd Piano dan 9 oed. Unrhyw: £2 i'w rannu. Mae angen holl gyfansoddiadau Llên a barddoniaeth ac arlunio (agored) yn llaw'r ysgrifenyddes erbyn Hydref 20, 1982.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Nos Iau, Gorffennaf 8 yn yr ysgol cynhaliwyd Sefydliad y Merched dan lywyddiaeth Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd. Croesawodd ein gŵr gwadd sef Mr Gwyn Rees Williams, CID, Caernarfon atom. Siaradodd ar dri pheth sef drwgweithred, drygioni plant a chyffuriau. Diolchwyd iddo gan Mrs M.G. Williams, Gwylfa. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Williams, Cefngwyn. Darparwyd y te gan Mrs Mair Parry a Mrs Betty Hughes, y ddwy o Lanrug. Fe fydd ein cyfarfod nesaf Medi 16 pryd y bydd Mrs Dorothy Jones, Cwm-y-glo yn rhoi sgwrs ar Dr Barnardo a ffilm.

AR WERTH

1 Beic Merch, 3 gêr. 1 'Racer' Dyn, 3 gêr. Port Dinorwig 670861.

10 o Ddrysau tu mewn. Pren 'Sapelle', 6' 6" x 2' 6" ail-law ond mewn cyflwr da. £8 yr un. Ffôn Felinheli 670726 (gyda'r nos).



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB MATH

SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMBOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670


Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos

Llanberis 872236



CROESAIR MEDI



AR DRAWS:

1. Acwariwm (7)
5. Materion ariannol (5)
8. Planhigion cors (5)
9. Achos (7)
10. Dug a llythyr yn troi i sylu (9)
12. Heb wres (3)
13. Enw bachgen (6)
14. "Hen linell bell nad yw'n bod Hen derfyn nad yw'n darfod" (6)
16. Mae parawys mewn hen efail (3)
17. Barnu yn euog (9)
20. Heb dad a mam (7)
21. Bywiogrwydd (5)
23. Newidiodd O LES I sicrhau (5)
24. Hynod (7)

I LAWR:

1. Lloches symudol (5)
2. Heb ... na miw (3)
3. Dychrynlyd (7)
4. Trannoeth i ddod (5)
5. Coelio (5)
6. Gwasanaethferch (9)
7. Difyr (7)
11. Heb ei ofyn (9)

13. Tân saim yn creu rhywbeth o'ch plaid (7)
15. Griddfan (7)
17. Dwyn i gof (5)
18. Mae neges fer mewn odyd (5)
19. Di-ddal (5)
22. Byw

Cyfrifir y llythrennau ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th fel UN llythrennau.

Atebion Croesair Gorffennaf:

AR DRAWS: 3. Cledwyn, 7. Arwain, 8. Datgan, 9. O law i law, 11. Methu, 12. Negeseuon, 17. Oeri, 18. Trydanol, 19. Wynebu, 20. Sbloet, 21. Turniwr.

I LAWR: 1. Dramodi, 2. Cywain, 3. Ceiniog, 4. Didaw, 5. Ystumio, 6. Synnu, 10. Amser, 13. Etifeddu, 14. Undebwr, 15. Nenloft, 16. Talu toll, 17. Olwyn, 18. Gwael.

ENILLYDD: "Un o Lanbêr gynt".

Anfonwch eich cyniogion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

DYDDIADUR MEDI

MEDI

2, Iau LLANRUG - Clwb y Mamau - noson 'Moes a Phryn' yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.

3, Gwener LLANBERIS - Te yr Henoed.

DEINIOLLEN - Trip Merched y Wawr i 'Ysgubor Lawen' ym Mhontllyfni.

6, Llun DEINIOLLEN - Sefydliad y Merched.

7, Mawrth WAUNFAWR - Pwyllgor y Ganolfan am 7.30.

8, Mercher BETHEL - Merched y Wawr.

WAUNFAWR - Trip Sefydliad y Merched i Lundain.

10, Gwener DEINIOLLEN - Noson Goffi er budd Cronfa Cymorthau Meddygol yn y Ganolfan.

14, Mawrth LLANRUG - Merched y Wawr - Noson o 'Glonc a Choffi'.

DEINIOLLEN - Clwb Elidir.

17, Gwener LLANBERIS - Te'r Henoed.

DEINIOLLEN - Gwibdaith Sefydliad y Merched i Felin Howell, Ynys Môn.

18, Sadwrn LLANRUG - Trip Ysgol Sul Capel Mawr i Sŵ Caer a Chaer.

CWM-Y-GLO - Sioe Gwningod yn y Ganolfan am 1.30.

20, Llun DEINIOLLEN - Merched y Wawr.

21, Mawrth PENISARWAUN - Clwb yr Heulwen, Sgwrs gan Mr John Roberts.

23, Iau WAUNFAWR - Sefydliad y Merched - Sioe Gynnyrch a Gwaith Llaw yn yr Hen Ysgol Bontnewydd. Merched y Wawr - Sgwrs gan y Prifardd Gerallt Lloyd Owen.

28, Mawrth PENISARWAUN - Clwb y Mamau.

Dyddiadau i'w Cofio

Hydref 9 - Eisteddfod Gadeiriol Llanrug.

Rhagfyr 4 - Eisteddfod Gwaun Gynfi, Deiniolen.

DEDDF IAWNDAL Y GWEITHWYR

- Y FFIGURAU DIWEDDARAF

Yn ôl Adran Gyflogaeth y llywodraeth mae 4145 o daliadau, sef cyfanswm o £24,354,160 wedi eu gwneud rhwng 4 Gorffennaf 1979 a 30 Mehefin 1982 o dan Ddeddf Pneumoconiosis etc. (lawndal Gweithwyr) 1979. Dyma'r ateb ysgrifenedig a dderbyniodd Dafydd Wigley i'w gwestiwn (Gorffennaf 2) yn ymwneud â'r ffigurau diweddaraf.

CERDYN CYDNABOD

(gw. stori ar y dud. flaen)



Y cerdyn i gydnabod yr ymateb i alwadau Oriol Eryri. Mae'r lluniau a welir yn symbolau o'r amgueddfeydd yn y cylch - Eryri, Y Chwarel a'r Rhufeiniwr (Segontium yng Nghaernarfon). Yn y gornel dde uchaf mae côd yr orsaf arbennig - sef Oriol Eryri. Ar y cefn mae ychydig frawddegau o wybodaeth am Amgueddfa Genedlaethol Cymru a manylion yr alwad.

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthychiadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

Welsh Development Agency

DERBYN S4C

Mae gwylwyr yng Nghymru yn gofyn yn gyson a fyddant yn barod i dderbyn S4C ym mis Tachwedd. Bydd dros 90 y cant o wylwyr Cymru yn medru - y rhai hynny sydd fewn cyrraedd trosglwyddydd addas. (Tua 95 y cant sy'n medru derbyn HTV a BBC ar hyn o bryd.) Dyma'r gynulleidfa fwyaf (o ran cyfartaledd) i unrhyw wasanaeth deledu newydd ym Mhrydain erioed.

I sicrhau fod y signal yn iawn, dylai'r gwyliwr ddewis botwm sbâr ar ei set deledu, ei gyweirio, a chwilio am y darllediadau prawf. Os llwyddiant i dderbyn y cerdyn prawf sy'n dwyn y geiriau 'IBA-S4C', dyna nhw'n iawn. Trwy gydol mis Awst, bydd yr IBA yn darlledu hysbyseb byr ar y teledu yn rhoi cyngor i wylwyr ar sut i'w wneud.

Mae'n bosib bydd angen cyfarwyddyd arbenigol. Os felly, dylid cysylltu â'r siop deledu lleol, neu'r cwmni sy'n rhentu setiau. Mewn rhai ardaloedd, mae'n bosibl na fydd y gwyliwr o fewn cyrraedd trosglwyddydd priodol - mae mwy ar eu ffordd.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae nifer helaeth o wylwyr wedi

dioddef toriadau i'r gwasanaeth ac efallai lluniau llai na pherfffaith. Roedd hwn yn ganlyniad o'r gwaith peirianyddol angenrheidiol ar gyfer S4C. Mae'r gwaethaf drosodd. Dymuna'r Awdurdod Darlledu Annibynnol ddiolch i'r gwylwyr am eu hamynedd.

Am fanylion pellach: Swyddfa'r IBA yng Nghymru, Tŷ Elgin, 106 Heol yr Eglwys Fair, Caerdydd CF1 1DX. Ffôn: (0222) 384541.

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans

CHWARAEON

DYSGU NOFIO

Goronwy Owen

"Mae Gronwy yn gallu deifio." Llais Harri Bach, Llainwen yn brolio i griw o hogia ar bont Llwyn Celyn. Derbyniad anhygoel braidd gafodd dywediad Harri, ac yn amlwg, roedd rhaid profi'r pwynt. Islaw'r bont roedd pwll bach oedd rhyw ddwy droedfedd o ddyfnder yn ei fan dyfnaf - Pwll Llwyn Celyn, fel y'i galwem. Lawr â ni i'r coed cyll, tynnu'n dillad, a sefyll ar y darn o graig ar ochr yr afon. Eisoed, roeddwn wedi gwneud un neu ddau 'boliad' y diwrnod cynt, a dyma fynd ati i ddangos sut i wneud 'boliad' clasurol arall, o dan lygaid craff Tomosaidd yr hogia eraill. Llwyddiant, a phawb yn mynd ati i ddangos eu bod hwy hefyd yr un mor brofiadol - pob un yn cymryd ei dro, a'r llannerch fach yn llawn o fywyd a chwerthin a sbort.

"Dynas yn dwad." Cri frawychus un craffach na'r gweddill, a haid o hogia tinnoeth yn diflannu fel tylwyth teg, i ganol y rhedyn, a'r coed bach. Cerddodd un o wragedd y ffermydd dros y bont heb edrych i'r chwith na'r dde. Roedd hi'n gwybod yn iawn ein bod ni yno, ond chwarae teg iddi, roedd hi'n parchu ein hawl i ddrochi yn yr afon. Arhosem i swm ei thraed ddistewi cyn ailymddangos ac ymgolli eto yn ein difyrrwch. Na, doedd dim sôn am wisg nofio na thywel i sychu. Roedd byd hogia yn fyd rhydd naturiol iawn pryd hynny.

Ynys Felan oedd y man dysgu, a dysgu nofio yn fwy o lwc nag o addysg. Yn y pwll penbyliaid, a oedd yn weddol gynnes, yr ymdrochai rhai ifanc, ond yn yr afon ei hun y byddai pawb yn bwrw'r cwch i'r dŵr. Ym mhoethder yr haf, cyrchai hogia'r pentre yno, tros y dolydd ac o lôn Bont Bala. Dim ond y bechgyn hyna fyddai'n perchenogi gwisg nofio, a gwisgoedd llawn oeddynt, nid rhai bach fel rhai heddiw, er weithiau, byddai ambell un yn gwisgo 'short ffwtbol'. A druan o'r merched, doedd unman iddyn nhw i ddrochi.

Gyda'r nos, ar ôl swper chwarel, byddwn yn mynd hefo tywel dan fy mraich. Nos Fawrth, noson Seiat oedd yr anoddaf. Byddwn wedi dangos i fy nhad a'm mam, lond bag o waith cartre. Eisteddwn wrth ffenest y parlwr yn gweithio, ond wedi i'm rhieni fynd o'r golwg heibio Fron Olau, byddai'r hwdedd gwaith yn lleihau yn hudolus, a byddwn wedi rhedeg i Ynys Felan, nofio a dychwelyd i ddarfod fy nhasg, cyn i seiat Capel Coch ddod i ben.


Ffwndri oedd prifysgol pob

nofiwr. Yn ei ddyfnder oer y dysgem nofio rhyw bymtheg i ugain llath neu fwy. Un haf, aethom â llif yno i docio tipyn ar goeden helygen oedd yn tyfu o'r dorlan, i wneud lle gwell i ddeifio. Dyma'r amser roedd Johny Weismuller yn sgrechian ei ffordd fel Tarzan i ddychymyg ieuencid Prydain, ac roeddem ninnau am ei efelychu. Ar y lan bellaf, wrth ochr y cwt cwch, tyfai derwen. Mentrodd rhai ohonom rhyw unwaith neu ddwy i frigau hon i ddeifio. Ydech chi erioed wedi dringo coeden yn droednoeth, ac yn edrych i lawr ar y crawia creulon oddi tanoch yn y dŵr islaw? Roedd Berwyn Meirionfa yn hollol ddi-ofn, ac roedd o ar ben yr hen dderwen yn amlach na neb. Roedd o'n gallu deifio.

Ond anaml iawn y byddai un ohonom yn nofio yn y llyn. Roedd rhyw ddirgelwch yn ei ddyfnder, rhyw gof cyntefig am yr afanc, rhyw gysylltiad efallai ag anghenfil Loch Ness, oedd newydd ddod i'n gwybodaeth. Yn y llyn fel arfer y byddai trychinebau yn digwydd. Mentrem ambell dro i geg yr afon, ond yn ôl i Ynys Felan o Ffwndri y dychwelem. Roedd hi'n fwy cysurus yn yr afon. Heddiw deallaf nad yw Llyn Padarn yn dal dim ofn i blant nag oedolion, a bod nofio ei hyd, nôl a 'mlaen yn beth hollol gyffredin. ARDDERCHOG.

Mae pyllau nofio heddiw yn llawer mwy hwylus i blant ysgolion yr ardal, diolch byth. Rwyf innau, erbyn hyn, wedi nofio mewn llawer baddon, ac o lawer traeth mewn mwy nag un môr, ond does dim dŵr yn unman fel dŵr croyw, Glan Bala.

"NOFIO YN Y FFWNDRI"



GWEITHGAREDDAU'R HAF



Rasus Hwylfordio ar Lyn Padarn. Llun drwy garedigrwydd Mr Gartside, Llanberis.



Am y gorau i gadw'n sych yn y ras rafftiau Llanberis.

AILDDECHRAU AR WEITHGAREDDAU'R GAEAF - Y TYMOR PÊL-DROED



Rheolwr newydd, crysau newydd ac wynebau newydd i dîm Llanrug. Y tymor hwn noddur Clwb Pêl-droed Llanrug gan Mr Winstanley, dyn busnes lleol sy'n gwerthu offer ar gyfer y cartref. Ar y dde mae'n cyflwyno crysau i reolwr newydd Llanrug - Mr Terry Smith. Yn y llun uchod mae'r tîm a chwaraeodd gêm ddi-sgôr yn erbyn Pwllheli y Sadwrn diwethaf.

RAS YR WYDDFA



Paul Prydderch yn ennill ei adran yn Ras yr Wyddfa eleni (chwith). Linda Prydderch (uchod) a enillodd nifer o rasus rhedeg yn ystod yr haf. Gweler tud. 5.

GWEDDILL Y CANLYNIADAU



Llanberis: Ray Harding sy'n gofalu am Lanberis y tymor nesaf. Maent wedi ennill eu dwy gêm gyntaf yn erbyn Bethel a Nantlle.

Bethel: Dic Roberts yw'r rheolwr newydd. Maent wedi dechrau'n addawol: colli un, ennill un a chyfartal yn y llall.

Llanrug: ennill un, colli un a chyfartal yn y drydedd.